# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Gorffennaf 2013 Rhif 435 50c

# PENCAMPWYR Y GOGLEDD!




Bu tim o blant blynyddoedd 5 a 6 o Ysgol Rhiwlas yn cystadlu ym Mharc Eirias ym Mabolgampau Talaith y Gogledd ar 11 Gorffennaf, gan gynrychioli Ysgolion Eryri yn y ras gyfnewid gymysg (wedi mynd drwy mabolgampau cylch Bangor Ogwen a Rhanbarth Eryri!)

Daeth tîm ysgol Rhiwlas yn gyntaf ac yn naturiol mae'r plant wrth eu boddau!

## Dathlu 75 Mlynedd o Wneud Paent yn y Dyffryn









**Bu ffatri Bradite yn Nghoed y Parc yn gyflogwr pwysig yn Nyffryn Ogwen am dri chwarter canrif. Darllennwch yr hanes ar dudalen 12**

# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL

**Derfel Roberts** ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

**Ieuan Wyn** ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

**Lowri Roberts** ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Dewi Llewelyn Siôn** ☎ 07901 913901
dewision@btinternet.com

**Fiona Cadwaladr Owen** ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

**Siân Esmor Rees** ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

**Neville Hughes** ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan** ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard** ☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter W Williams** ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

### SWYDDOGION

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.com

**Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Dewi A. Morgan.

Golygydd mis Medi fydd Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW. 01248 601592. Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 4 Medi os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 19 Medi, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.**

## DYDDIADUR Y DYFFRYN

### Mis Gorffennaf

24 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

25 Pesda Roc gyda Gulp ac Afal Drwg Adda. Neuadd Ogwen.

27 Bore Coffi Clwb Camera Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 - 12.00

30 Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

### Mis Awst

03 Diwrnod Hwyl. Cae Chwarae Talybont. 11.00 - 4.00

10 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10 – 2.00

17 Bore Coffi Cronfa Goffa Tracy Smith. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00

### Mis Medi

05 Sefydliad y Merched Carneddi. Arddangosfa Coginio. Cefnfaes am 7.00

14 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

19 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

## Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd ☎ 601415**
**Neville Hughes ☎ 600853**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwobrau Mis Mehefin

£30.00 (147) Mrs Olwen Williams, Carneddi.
£20.00 (54) Mrs Iris Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandygái
£10.00 (160) Mrs Audrey Griffith, Dolydd, Talgarreg, Ceredigion.
£5.00 (93) Karen Aston, 31 Erw Las, Bethesda.

## Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

**Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan**

Cysodwyd gan **Tasg**, 50 Stryd Fawr Bethesda, LL57 3AN ☎ 07902 362 213
**post@tasg.co.uk**

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon, Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY ☎ 01248 601669

## Rhoddion i'r Llais

£ 5.00 Mr a Mrs Nigel Fisher, 1 Caeuau Gleision, Rhiwlas.
£ 4.50 Bethan Griffith, Erw Wen, Tregarth.
£100.00 Myrddin Williams, Clynnog Fawr, Er cof am ei chwaer, Rhiannon Rowlands (Tregarth, gynt).
£100.00 Er cof am y diweddar Edward Oliver, Arafon, Mynydd Llandygái.
£ 25.00 Er cof am Wyn Davies, Bronnydd, oddi wrth Stella, Philip, Tony ac Anne Marie.
£ 30.00 Er cof am John Gareth Parry, 43 Adwy'r Nant, a hunodd 2 Awst 2003, hefyd Robert (Bob) Parry, 43 Adwy'r Nant a hunodd 19 Medi 2009. Hiraeth mawr bob dydd amdanoch, oddi wrth Ann a'r teulu i gyd X
£50.00 Er cof am David Wyn Williams, 16 Stad Coetmor, Bethesda, oddi wrth Sandra, Darren a Sara.

**Diolch yn Fawr**

**MAE CALENDR LLAIS OGWAN 2014 EICH ANGEN CHI!!!!**

Oes gennych chi luniau a fyddai'n addas i galendr Llais Ogwan, byddwn yn falch iawn o'u derbyn.

Rydym am geisio rhoi blaenoriaeth yn y calendr nesaf i luniau sy'n adlewyrchu bywyd yn Nyffryn Ogwen, ond nid oes raid i'ch lluniau ddilyn y thema honno – llun diddorol a da sy'n bwysig – bydd pob un yn cael ei ystyried

Gyrrwch y lluniau – yn electroneg, os yn bosibl, ( ond nid yn angenrheidiol) i Dafydd Fôn Williams 14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, LL57 3TR
dafydd@gerlsn.wanadoo.co.uk

**CYN DIWEDD MEDI, OS GWELWCH YN DDA!**
**Edrychwn ymlaen i'r lluniau**

**LLYFRGELL BETHESDA**

**Plas Braw,**
**Sialens Ddarllen i Blant, Haf 2013**

Yr Haf yma, mae digon o bethau sbwci i godi gwallt eich pen yn y Llyfrgell.
Dewch i ymuno a'r criw, wrth iddyn nhw weithio'u ffordd drwy dri llawr cyffrous o hwyl.
Trwy ddarllen llyfrau o'r Llyfrgell, gallwch ddysgu am gyfrinachau'r tŷ, Plas Braw,
a chadw cofnod o'r antur ar boster arbennig.

Dewch i gasglu'r poster a'r sticeri o'r Llyfrgell. mae'n nhw'n sgrechlyd o dda.
A wnewch chi gwblhau y Sialens a derbyn eich medal?

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

# Ymgyrch Gwarchod Maes Coetmor

Diolch i'r Llais ym Mis Mehefin am roddi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch i ddiogelu caeau gwyrdd Maes Coetmor, ac fe ellir cyhoeddi yn y rhifyn cyfredol fod yr ymgyrch yn mynd yn ei blaen yn egnïol. Deellir fod nifer fawr o lythyrau wedi eu danfon i Adran Gynllunio Gwynedd ac i Gynghorwyr Cyngor Gwynedd i brotestio ynghylch y datblygiad ac mae aelodau'r Pwyllgor Gwarchod yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth. Mae pob lythyr yn bwysig ac felly daliwch ati i ddanfon eich sylwadau, a chofiwch hefyd lofnodi'r ddeiseb sydd bellach gydag oddeutu 600 wedi ei harwyddo. Cynhelir rali genedlaethol yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych ar y 9fed o Orffennaf i drafod y cysylltiad rhwng cynllunio datblygiadau tai enfawr a'i effeithiau niweidiol ar gymdeithas, diwylliant ac iaith cymunedau yng Nghymru. Gobeithio y daw cynrychiolaeth dda i gefnogi ymgyrch sy'n arbennig o berthnasol i'n hymdrechion ni yn Nyffryn Ogwen.

Nodwn gyda gofid sylwadau cam-arweiniol Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, ar y radio ar 2 Gorffennaf pryd y dywedodd y byddai'n anodd deddfu yn erbyn datblygiadau cynllunio oherwydd fod rhyddid gan bawb fyw yn y tai a ddatblygid. Cywir iawn, ond nid hon yw'r ddadl ond yn hytrach y caniatâd a roddir i ddatblygu niferoedd enfawr o dai sydd ymhell y tu draw i ofynion lleol yn ein cymunedau. Ac felly beth yw perthnasedd hyn i'r ymgyrch bresennol ym Maes Coetmor. Dywedir gan lawer ym Methesda eu bod yn cefnogi datblygiad Maes Coetmor oherwydd bod angen tai, ac yn arbennig tai fforddiadwy, ym Methesda. Gwrthwynebu safle'r tai a maint y stad y mae ymgyrch Maes Coetmor ac yn bendant nid yn gwrthwynebu adeiladu tai ar gyfer y gofyn sydd yn y gymdogaeth. Wedi ymchwilio ymhellach i Gynllun Unedol Gwynedd 2001-2016 fe ganfyddir fod nifer y tai sydd i'w hadeiladu yn ardal ddibynnol Bangor, gan gynnwys Bethesda, sef 806 o dai, wedi ei bennu ar gyfrifiad a wnaethpwyd rhwng 2001 a 2004, ac, er cymaint meini prawf y cyfrifiad, ni ofynnwyd y cwestiwn sylfaenol o beth oedd y gofyn am dai yn lleol ym Mangor nac yn lleol ym Methesda. Efallai, pe byddai'r cwestiwn hwn wedi ei ofyn yn y lle cyntaf y byddai gennym erbyn rŵan well cynllun i ddiwallu yr angen lleol na'r un presennol sydd yn gwthio 20 o dai fforddiadwy i mewn i gynllun sydd yn cynnig 49 o dai preifat 3 i 5 llofft ar y farchnad agored.

Mae'n amlwg fod gennym fel Pwyllgor Diogelu Maes Coetmor lawer i'w ddysgu ynghylch sut mae'r farchnad tai fforddiadwy yn cael ei chynllunio. Er enghraifft, pwy sydd yn rheoli ceisiadau am y tai a beth fyddai'r gofynion i'r rhai fyddai'n ceisio amdanynt? Gobeithio y cawn drafod hyn yn fanylach yn y dyfodol yn Llais Ogwan.

Mae'r Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones eisoes wedi ymweld â'r safle yng Nghoetmor, ac mae aelodau Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi derbyn copïau o ohebiaeth Pwyllgor Diogelu Coetmor efo'r Gwasanaeth Cynllunio

**Pwyllgor Diogelu Coetmor**

Ydych chi wedi anfon llythyr yn gwrthwynebu'r cais cynllunio?
Ydych chi wedi cael cyfle i lofnodi'r ddeiseb?
Ydych chi wedi cael poster i roi yn eich ffenestr?
Ydych chi'n awyddus i helpu yn yr ymgyrch?

**Cysylltwch efo:**
John Llywelyn Williams - Ffôn: 600328
E-bost: johnllywelyn@yahoo.co.uk
Carol Roberts - Ffôn: 601849
E-bost: carolrobs@hotmail.com
Jennifer Francis - Ffôn: 208642
E-bost: jenfrancis@hotmail.c.uk
Ieuan Wyn - Ffôn: 600297
E-bost: cylch@tiscali.co.uk
Jo McGreal - Ffôn: 600727
E-bost: mcgrealjo@yahoo.co.uk

**Pwyllgor Diogelu Coetmor**




# O 'Tŷ Chi'

Yn Erw Las, Bethesda mae 'Tŷ Chi' a dyma erthygl ddiddorol gan Mary Jones i chi.

"Wel dyma gyd-ddigwyddiad" meddaf wrthyf fy hun wrth ddarllen y golofn hon y mis diwethaf. Dim ond diwrnod neu ddau ynghynt y clywais ddihareb, oedd yn newydd i mi, bron ar yr un trywydd. Dyma hi. "Dafad farus, ffrind y tlawd". Gallwch ddarlunio'r werin ers talwm yn casglu gwlân yr hen ddafad oedd wedi ei adael ar y cloddiau a'r gwrychoedd wrth iddi grwydro'n farus. Rwy'n siŵr ei fod wedi cael defnydd da.
O'r un ffynhonnell clywais "Dau law dan lwyn". Dim ond i chi sylweddoli nad dwylo a olygir, daw'r eglurhad yn amlycach. Felly peidiwch ag ymochel dan lwyn.

Tybed os oes diarhebion gwahanol mewn ardaloedd arbennig. Beth am arwyddion tywydd? Mae rhai'n gyffredin iawn wrth gwrs fel - gwenoliaid yn hedfan yn isel, glaw.

Ond beth am rai Dyffryn Ogwen? Os ydych eisiau sychu dillad, peidiwch â'u rhoi allan ar y lein os ydi wedi "cau am y chwarel" neu wlyb fyddan nhw. Ac os edrychwch i fyny a gweld crëyr glas yn hedfan tua'r mynydd, yr un fydd yr hanes, achos ei fod yn "mynd i agor y fflodiart"

Ydych chwi wedi sylwi ar y cymylau arbennig sy'n ffurfio uwchben a rhwng Gyrn Wigau a'r Elen? Mae fel wal wen ac yn wir gelwir hi yn "wal wynt", ac nid heb reswm, gan ei bod yn arwydd pendant fod gwynt ar y ffordd.

Oes mwy? Siŵr o fod, a buasai'n biti i'r rhain fynd yn angof.

**Diolch yn fawr iawn Mary.**

# O 'Tŷ Ni'

Glywsoch chi rywun y gwaeddi 'AW!!' rhyw bnawn dydd Sul yn ddiweddar? Fi. Wrth fynd am dro lawr Lôn Goed cefais fy mhigo gan ddanadl poethion, ac 'roedd YN brifo! Dyma ddechrau meddwl sut oedd planhigyn digon di-nod yn gallu bod mor ffiaidd. Cefais dipyn o agoriad llygaid wrth ymchwilio ar ôl mynd adref.

Blewiach mân iawn fel nodwyddau ar y dail sy'n creu'r broblem. Maent yn cynnwys 3 prif gemegyn - histamine sy'n achosi llid ar y croen, acetylcholine sy'n creu llosg, a serotonin sy'n hybu'r ddau gemegolyn arall. Hm... does ryfedd fod y pigiadau mor boenus! Pan oeddem yn blant, byddem yn poeri ar y pigiad ac yn torri deilen Dail Tafol a'i rhwbio drosto.

Dyma ddarganfod mwy. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd yr Almaenwyr yn cael trafferth cael digon o gotwm i wneud eu dillad milwyr. Wrth ymchwilio, darganfu gwyddonwyr y gellid cymysgu ychydig bach o ffibrau cotwm gyda ffibrau cryf a geid yng nghoes y danadl poethion. Cafodd dwy wisg gan filwyr Almaeneg eu cipio yn 1917 ac wedi archwilio cynnwys eu defnydd, gwelodd y gwyddonwyr eu bod wedi eu gwneud gyda'r ffibrau hyn. 'Roedd manteision amlwg o dyfu danadl poethion yn hytrach na chotwm. Mae cotwm angen llawer o ddŵr a gwres i dyfu'n llwyddiannus - nid felly danadl poethion! Nid oedd y siacedi hyn yn pigo gan nad oedd y dail yn cael eu defnyddio.

Nid yr Almaenwyr oedd y cyntaf i ddefnyddio'r danadl poethion. Mae archeolegwyr wedi darganfod olion o gwmpas Ewrop mewn rhwydi pysgota, rhaffau a defnydd.

Gellir gwneud gwin, cwrw, cawl a llawer mwy gyda danadl poethion, ond dim i mi ddiolch! Mae'n siŵr bod pwrpas i hyd yn oed ddanadl poethion wedi'r cyfan!

**Mae croeso i blant anfon cyfraniad i 'Tŷ Chi' wrth gwrs neu beth am lun diddorol? Cysylltwch â jan@erwlas.freeserve.co.uk, neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd. LL57 3NN gan gofio rhoi enw a chyfeiriad "Tŷ Chi" neu gallwch gysylltu â Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN**


# AR WERTH



**TŶ BRAF**
**yn Hen Barc, Bethesda**

Hen dŷ carreg, yn sefyll ar ei ben ei hun, gydag estyniadau wedi eu hychwanegu dros y blynyddoedd. Golygfeydd dros Rachub draw i Ynys Môn.

Saith ystafell lawr grisiau, gan gynnwys lle chwech ac ystafell haul; tair llofft a stafell `molchi i fyny grisiau. Hefyd dau gwt defnyddiol y tu allan.

Gwres canolog nwy.
Wedi ei adnewyddu drwyddo yn ddiweddar.

Fe dorrwyd £70,000 eisoes oddi ar y pris, i £189,000; rydym yn barod i ystyried gostwng ymhellach, yn enwedig i berson neu deulu lleol.

Ffoniwch i drafod:
07780 990590
neu 07974 935755 neu
01286 830708

# Bethesda

**Llên Ogwen,**
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

**Siop Kathy**
Stryd Fawr, Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

**Joe Hughes,**
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☎ **601902**

**Diolch Pen-blwydd**
Dymuna Edwina Rowlands, 42 Abercaseg, ddiolch yn fawr i deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolch i bawb.

**Geni**
Llongyfarchiadau i Liam a Donna ar enedigaeth Cian Jac ym Mhenygroes.

Llongyfarchiadau hefyd i Taid a Nain, sef Kevin a Beverley, Allt Penybryn, ac i Norma a Derrick, 46 Abercaseg, ar ddod yn hen nain a thaid.

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i John Davies, Tanysgrafell, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar 16 Awst. Pen-blwydd hapus iawn oddi wrth y teulu a'i ffrindiau i gyd.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â rhai a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:
Mr a Mrs Arwyn Oliver a'r teulu, ffordd Bangor ar golli tad Arwyn, sef y diweddar Mr Edward Oliver.
Mr John Williams a'r teulu, Arafa Don, ar golli ei frawd, Mr Reg Williams, Llanfairpwllgwyngyll, ddechrau Mehefin.

**Pen-blwydd Arbennig**
Dathlodd tair eu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Mehefin. Llongyfarchiadau iddynt a gobeithio eu bod wedi mwynhau'r diwrnod:
Dilys Margaret Pritchard, Adwy'r Nant ar yr 20fed.
Margaret A Jones, Pant Glas ar yr 22ain.
Edwina Rowlands, Abercaseg.

**Ysbyty**
Cofion a gwellhad buan i Mr Tudor Roberts, Abercaseg.

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau i Helen a Paul, Pant, a Nancy a Gareth, Pant Glas, ar yr achlysur hapus o fod yn daid a nain ac yn hen dad a hen nain i Lyla Glyn.

**Gair o Ddiolch**
Dymuna Sandra, Darren, Sara a theulu y diweddar Mr David Wyn Williams, 16 Stad Coetmor, ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion, cymdogion a hogiau Chwarel y Penrhyn am eu cymorth a'u caredigrwydd yn eu profedigaeth fawr o golli priod, tad a brawd annwyl a hoffus. Diolch am bob arwydd o gydymdeimlad trwy ymweliad, galwad ffôn neu gerdyn, a diolch am y rhoddion hael er cof am David. Diolch am wasanaeth y Parchedig Geraint Hughes ar ddiwrnod yr angladd. Diolch i Barry am ei deyrnged ac i'r grŵp Celt, ac i Mrs Minnie Lewis am gyfeilio. Diolch yn fawr hefyd i Mr Gareth Williams am ei holl drefniadau parchus.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Jac a Ceri Foulkes ar enedigaeth merch fach, Megan Watkin, ar 13 Mehefin. Mae Erin Haf wrth ei bodd hefo'i chwaer fach. Yr un yw'r llongyfarchiadau i Taid a Nain 'Pesda sef Emyr a Heulwen Roberts, Ystradawel, sydd yn mynd i fod yn brysur iawn yn gwarchod.

**Diolch**
Dymuna Emyr a Heulwen ddiolch o galon ar ran Jac a Ceri am y dymuniadau da a'r cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Megan ar ei genedigaeth.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Menna Wyn a Rhys Lloyd Jones, Bryn Coetmor, ar eu priodas yn ddiweddar. Pob lwc i'r ddau yn y dyfodol.

## Gorffwysfan

**Pwyllgor**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor fore Llun, 17 Mehefin 2013 am 11.00 y bore gyda Mr Eric Jones yn y gadair.

Cafwyd gair o groeso gan y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol, sef Elfed Bullock, Dennis Dart, Eric Jones, OJ Evans, Dafydd Pritchard, Vernon Owen, Gilbert Bowen, Joe Hughes, Edric Jones a Len Williams. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joe Evans a Tom Morgan.

Cydymdeimodd y Cadeirydd â Mrs Christine Jones, Rachub, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, a gyda Mrs Rita Bullock a Mr Edric Jones ar golli modryb.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Llun 25 Chwefror 2013.

**Materion i'w trafod**
**Bore Coffi 2013**
Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth yn y bore coffi a gynhaliwyd fore Sadwrn 25 Mai. Diolchodd i Vernon a Dafydd am gasglu gwobrau gan fusnesau'r Stryd Fawr. Diolchwyd hefyd i Dennis am baratoi tocynnau a phosteri. Cafwyd bore llwyddiannus gydag elw o £310.

**Gwibdaith Ddirgel 11 Medi**
Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y pwyllgor na fyddai'r clwb yn gyfrifol am dalu am fwyd ar y wibdaith eleni, ond y byddai'r ysgrifennydd yn barod i drefnu pryd ar ddiwedd y daith gyda'r aelodau'n talu. Bydd y rhestr ar gyfer gwibdaith Medi ar gael yng Ngorffwysfan o 1 Awst.

**Cinio Nadolig**
I'w gynnal ar 18 Rhagfyr, gyda'r lleoliad i gael ei drafod ym mis Medi.

Gyda gofid, cafwyd gwybodaeth fod cwmni Hefin Griffiths wedi dod i ben ar 31 Mai 2013, ond bydd cwmni Clynnog a Threfor yn gwasanaethu hyd ddiwedd y flwyddyn.

**Rhodd**
Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd anfon rhodd o £50.00 i Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru.



**Hogia Gorffwysfan yn cyflwyno siec i Ambiwlans Awyr Cymru trwy law Eifion Jones (Jonsi).**

**Tâl Aelodaeth**
Bydd y tâl aelodaeth yn ddyledus ym mis Awst. Felly cofiwch alw yng Ngorffwysfan fore Llun neu fore Gwener gyda'ch tâl aelodaeth o £10.00. Os na dderbynnir eich arian bydd eich rhifau yn cael eu rhoi i rai sy'n disgwyl i ymuno â'r clwb.

## Yr Eglwys Unedig
### Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Mae'n argoeli y bydd Mehefin yn well na'r un a gawsom y llynedd, gyda llifogydd mawr yn difrodi tai ac eiddo. Hyderwn y cawn weld,
*A haul Mehefin drwy'r prynhawn*
*Yn bwrw'i aur i'th gwpan llawn.*
Y Pabi Coch ( I.D.Hooson)

Cofiwn am bawb sydd yn wael, llawer a fuasai'n ymhyfrydu mewn ymuno â ni yn y gwasanaethau. Dymunwn y gorau iddynt am wellhad buan a bendith arnynt.

Trist yw nodi ein bod wedi colli un o'n hen aelodau y mis hwn, sef, y Br. John William Jones, 4 Braichmelyn. Bu mewn cartref preswyl am sawl blwyddyn cyn colli'r dydd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i wraig, y Fns. Eirlys Jones a'r teulu.
Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â theulu Talgarreg. Collodd y Fns. Blodeuwedd Wyn ei mam wedi gwaeledd hir.

Ar yr 11eg, cynhaliwyd ein Cyfarfod Gweddi misol dan ofal Emyr Roberts, gyda Joe Hughes a Mair Jones yn cynorthwyo dan gyfeiliant Gwenno Evans. Bu'r Br. Emlyn Evans a'r Parchedig John Owen yn cyfrannu (yn eu habsenoldeb) at bwnc y noson. Diolch i bawb. Yn wir, cawsom fendith o wrando ar y cynnwys.

**Yr Ysgol Sul**
Anest, Philip a Rhiannon oedd yn ledio emyn y plant y mis hwn. Cynhaliwyd 'Mawl y Plant' fore Mehefin 16eg gyda Heddwen Lois fel Arweinydd a Chyfeilydd. Yn ystod y 'Mawl' cafwyd cyfle i wobrwyo'r plant am eu llwyddiant yn yr Arholiad Llafar a chafwyd eitemau gan blant hŷn Yr Eglwys Unedig. Diolchwn iddynt i gyd am eu presenoldeb, am eu perfformiadau trylwyr ac i athrawon Yr Ysgol Sul am eu hyfforddi. Bu cyfle hefyd i ddod a nwyddau annarfodus ar gyfer y

**Banc Bwyd.**
Diolch i Walter a Menai am gludo'r nwyddau i Fanciau Bwyd Bangor a Chaernarfon. Am 6.oo yr hwyr, cynhaliwyd 'Moliant Mehefin,' Yr Arweinydd oedd Gareth Hughes Jones a'r Organydd Beti Rhys. Cafwyd eitemau gan Gôr Iau Ysgol Dyffryn Ogwen a Chôr y Dyffryn dan arweiniad Menai Williams. Cawsom fwynhau Cymanfa wych.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i'r Parchedig John ac Elena Owen ar ddod yn hen daid a nain ac hefyd i Emyr a Heulwen Roberts ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Newydd da arall oedd fod Sioned Williams, Sgwâr Buddug wedi graddio ym Mhrifysgol Bangor. Da iawn Sioned.

**Adnod y mis.**
Gwyn ei fyd y sawl sy'n gwrando arnaf, sy'n disgwyl yn wastad wrth fy nrws, ac yn gwylio wrth fynedfa fy nhŷ.
**Diarhebion 8. 34**

## Cyflwyno Siec



**Clwb Celf Capel Jerusalem yn cyflwyno siec i Eifion Jones (Jonsi) o Ambiwlans Awyr Cymru.**

### EGLWYS UNEDIG BETHESDA

**Oedfaon y Sul am 10.00 ac am 5.00**

**Gorffennaf**
21 Y Parchedig Geraint Hughes
28 Miss Nerys Jackson

**Awst**
04 Parchedig W.R.Williams.
11 Mr J.R Roberts (bore)
11 Y Parchedig G.Roberts (nos)

**Croeso Cynnes i Bawb**

### CAPEL BETHANIA BETHESDA

**Gorffennaf:**
21 Y Parchedig Gwynfor Williams

**Awst:** Dim Oedfaon

**Medi:**
01 Mr Glyn Owen
15 Y Parchedig Gwynfor Williams

Oedfaon am 5.30

**Croeso Cynnes i Bawb**

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:**

**Sul Cyntaf pob mis**
Cymun Bendigaid – 8.00am
Gwasanaeth Teuluol – 11.00am
**Ail a thrydydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
**Pedwerydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
**Pumed Sul** - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)
**Pob bore Mercher am 10.30am** - Cymun Bendigaid

**Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.**

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chwi i gyd.


**Bore Coffi.**
Cynhaliwyd Bore Coffi yn Neuadd Ogwen bore Sadwrn 22 Mehefin. Diolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda'r stondinau, raffl a gwneud y baned. Diolch hefyd i bawb a fu'n cefnogi yn ystod y bore.

**Ffarwelio â'r Curad**
Bore Sul, 23 Mehefin, bu'n rhaid ffarwelio â'n Curad, y Barchedig Jenny Hood, ar ôl tair blynedd yn ein plwyf. Diolchwyd i Jenny gan Y Parch John Matthews. Cyflwynodd Arwel, Warden y Bobl, rodd ariannol i Jenny ac fe gyflwynodd Gilbert, Warden y Ficer, dusw o flodau iddi. Cynhaliwyd te bach ffarwelio yng nghefn yr Eglwys a dymunwyd y gorau i Jenny yn ei swydd newydd fel Caplan Ysbyty yn Salford, Manceinion.

**Arch Noa**
Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae'n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am 9.15am.



Dydd Llun, 10 Mehefin cafodd criw o blant bach Clwb Arch Noa ddiwrnod gwerth chweil yn y Gelli Gyffwrdd ger y Felinheli.




Ar ôl cyrraedd cawsant de parti wedi ei baratoi gan staff arlwyo y Gelli Gyffwrdd a theisen parti arbennig o flasus. Roedd hi yn ddiwrnod braf a'r plant i gyd wedi mwynhau eu hunain yn crwydro'r parc a phrofi'r gwahanol weithgareddau oedd ar gael iddynt.
Diolch yn fawr iawn i Helen Williams am drefnu'r diwrnod bendigedig hwn mor drwyadl i'r plant bach. Maent yn edrych ymlaen am ddiwrnod allan pleserus eto!!

# Merched y Wawr, Cangen Bethesda

### Taith Flynyddol Merched Y Wawr – 30 Mai, 2013

Cawsom noson braf ar gyfer ein taith i winllan 'Pant Du', sydd mewn lleoliad godidog ar lethrau Dyffryn Nantlle, yng ngolwg yr Wyddfa, mynyddoedd yr Eifl a glannau Bae Caernarfon. Roedd Jennie, ein hysgrifenyddes ddiwyd, wedi trefnu tywydd braf hyd yn oed!! Diolch am ei threfniadau trylwyr.

Aeth deunaw ohonom ym mws Derfel gan gychwyn am bump o Fethesda. Eisteddodd rhai i fwynhau'r heulwen ac aeth y gweddill gyda Richard Hughes, y perchennog i weld y gwinllannoedd a'r perllannau. Cawsom groeso cartrefol gan Richard a Iola, ei briod a'r ferch ifanc oedd yn gweini arnom. Cyn diwedd y noson daeth Mabon y mab bach gartref a chawsom ein diddanu ganddo nes daeth yn amser gwely iddo!

Roedd Eurwen Morris wedi methu a dod oherwydd ei bod yn gweld ymgynghorwr yn yr Ysbyty.
Mae Jean Ogwen Jones wedi cael profion ar ei chalon ac yn wynebu triniaeth yn fuan a dymunwn yn dda iddi.
Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd i Eirlys Jones (Penybryn), sydd yn yr Ysbyty. Da oedd clywed ei bod yn gwella.
Cydymdeimlwyd â Rita Bullock, sydd wedi colli ei modryb. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd.

Trafodwyd y mater o godi tai yng Nghoetmor, Bethesda, a phenderfynwyd drwy fwyafrif i gefnogi'r gwrthwynebiad.
Cafwyd gwybodaeth am raglen y flwyddyn nesaf. Diolch eto i Jennie am ei gwaith caled.
Y Raffl. Enillwyd y gwobrau lwcus gan Megan Wyn Phillips a Medi Williams.

Diolchwyd i bawb gan ein Llywydd Anrhydeddus, Y Fns Elena Owen.

# Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ **601880**

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Stella, Philip, Tony, Anne Marie a'r teulu ar achlysur trist marwolaeth Wyn Davies, Bronydd Uchaf ac yntau ond yn 68 mlwydd oed. Bu Wyn yn dioddef yn ddewr o salwch cas ers bron i ddwy flynedd, Magwyd ef yn y Bronydd, fferm fynydd ar y ffin rhwng Llanllechid ac Aber, ac roedd y mynydd yn agos iawn at ei galon. Dilynodd ei dad i'r byd amaethu gan ffermio'r tir y bu ei dad yntau yn gofalu amdano cyn hynny. Bu'r teulu yn bwysig iddo a buont hwythau yn ffyddlon iddo yn ystod ei waeledd. Roedd Wyn yn ffermwr medrus ac roedd y dywediad " Pob dim yn ei le a lle i bob dim" yn gweddu i'r dim iddo. Cymerai ofal mawr o les ei ddefaid ac o sicrhau bod y fferm yn edrych yn dwt a glân bob amser. Gadawyd bwlch enfawr o fewn y teulu ac yn ffiniau'r Bronydd. Cynhaliwyd yr angladd yn yr amlosgda dan ofal y Barchedig Megan Williams, gyda Gwynedd Wain yn talu teyrnged i Wyn.

**Diolch**
Dymuna Stella, Philip, Tony ac Anne Marie a theulu'r diweddar Wyn Davies, Bronnydd, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli Wyn. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd at achosion lleol. Yr un yw'r diolch i Stephen Jones am drefnu'r angladd a'i gymorth di-fai bob amser.

**Pen-blwydd hapus**
Mae 21 Gorffennaf yn ddiwrnod mawr yn hanes Anwen Owen, Lôn Groes, wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn hanner cant. Ymunwn gyda'r teulu a'i ffrindiau i ddymuno pen-blwydd hapus i Anwen.

Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Augusta Williams, Bron Arfon, a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 1 Awst.

Dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed mae Dora Williams, Bron Arfon, gynt o ffordd Llanllechid, a hynny ar 24 Gorffennaf. Pen-blwydd hapus iawn i Mrs Williams.

**Brysiwch Wella**
Anfonwn ein cofion at Mrs Eirlys Morgan, Maes Bleddyn a'r Cynghorydd Pearl Evans, Stryd Britannia, y ddwy wedi derbyn triniaethau mewn ysbyty yn ystod y mis.

## Capel Carmel, Llanllechid

**Apêl Helpu Haiti**
Cynhaliwyd Te Bach ar ddechrau'r mis ac ar y diwrnod buom yn gwerthu gwaith llaw a wnaed gan y merched. Roedd yr elw'n mynd at Apêl 2013 Undeb yr Annibynwyr sydd yn cyweithio gyda Cymorth Cristnogol i 'Helpu Haiti'. Codwyd £408. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Undeb yr Annibynwyr**
Tro Cyfundeb Gogledd Arfon oedd croesawu cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym mis Mehefin. Bu rhai o aelodau Carmel yn perfformio mewn cyflwyniad yn Theatr Seilo gydag aelodau a phobl ifanc eglwysi eraill. Thema'r cyflwyniad oedd Môr a Mynydd, ac ynddo cafwyd hanesion am waith rhai o'r eglwysi gyda chôr yn rhpi eitemau amrywiol. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Clwb Dwylo Prysur a rhai o blant hynaf yr Ysgol Sul, a gwnaethant eu gwaith yn ardderchog

I gloi gweithgareddaau'r Ysgol Sul cyn gwyliau'r haf, cawsom de parti'r Tedis. Ymunodd aelodau ysgol sul Talybont yn yr hwyl, Daeth pob un a'i dedi a chafwyd canu a dawnsio egnïol, gwneud gwaith llaw a chwarae gemau, cyn eistedd i gael picnic mawr. Diolch i'r athrawon ac i bawb wnaeth helpu.



**Te Parti'r Tedis**

**Moel Wnion**
Aeth criw Dwylo Prysur i ben Moel Wnion un prynhawn Sadwrn. Beth oedd yn ein haros ar y copa ond Baner y Ddraig Goch. Pam? Wel dyma ddiwrnod ras y Foel Fras, ras 12 milltir yn cychwyn a gorffen yn Aber, a Moel Wnion oedd y copa uchaf. Roedd tua chwe deg o redwyr a chawsant gymeradwyaeth go lew gennym am eu gorchest.



**Yr aelodau gyda'r ddraig goch.**

### CANOLFAN RACHUB

Ar gael ar gyfer cyfarfodydd a gweithgaredd o bob math

**PRISIAU LLOGI**

£10.00 am sesiwn hyd at 4 awr
£15.00 – Partïon neu benwythnosau

Cysylltwch â Godfrey Northam (600872) am ddyddiadau rhydd

### Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Clwb yn festri Carmel gyda dros ugain o bobl oedd â chysylltiad â'r ardal yn bresennol. Cyfle oedd hwn i gael sgwrsio a rhannu gwybodaeth ac atgofion am yr hen ddyddiau yn yr ardal. Cafwyd storïau difyr, ambell i gân a llwyth o atgofion. Y bwriad yw cynnal cyfarfodydd rheolaidd dros y gaeaf, gan gychwyn ar nos Fercher, 2 Medi am 7.00 yn y Festri.

Mwynhawyd y noson gan y rhai a oedd yn bresennol, a'r gobaith yw y byddant hwy a llu o rai eraill yn mynegi diddordeb mewn mynychu'r cyfarfod nesaf. Mae rhai o'u plith wedi gwirfoddoli i chwilio am wahanol agweddau o'r hanes, er enghraifft ysgolion, siopau ac yn y blaen, Byddai'n dda pe gallech ddod ag ambell lun i'r cyfarfod nesaf i gael cychwyn ar hel mwy o atgofion. Cyfarfod anffurfiol fydd hwn, a chyfle i bawb sy'n bresennol gael dweud ei bwt yn hamddenol. Diolch i Helen Williams am baned dderbyniol iawn gan fod cegau pawb yn sych wedi'r holl siarad. Welan ni chi ar 25 Medi.

### EGLWYS UNEDIG BETHESDA

**'LLENWI'R CWPAN'**

**Dewch am sgwrs a phaned**

**Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd**

### CAPEL BETHEL

**Gorffennaf:**
21 Parch Dr Dafydd Wyn Williams.

**Awst:**
Dim Oedfaon

**Medi:**
01 Y Gweinidog
08 Y Gweinidog
15 Mr Jackie Roberts
22 Y Parchedig Dewi Morris

Oedfaon am 2.00

**Croeso Cynnes i Bawb**

### CAPEL CARMEL Gwasanaethau

**Gorffennaf**
21 Y Parch T Roberts 5.00
28 Gweinidog 2.00 a 5.00

**Awst 4 ac 11**
Uno yn Jerusalem 10.00 a 5.00

**Medi**
01 Gweinidog 5.00
08 Gweinidog 2.00 a 5.00
15. Miss Nerys Jackson 5.00

**Croeso Cynnes i Bawb**

### Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

**Paned a Sgwrs**
Caffi Fitzpatrick
11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

**Peint a Sgwrs**
Douglas Arms Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun pob mis

# Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

**Profedigaeth**
Rydym yn cydymdeimlo' n ddwys gyda Nia a Berwyn, a'r plant, Alun ac Elen, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth fawr o golli mam Nia, y ddiweddar Beryl Williams, Stryd Goronwy. Nid oedd Beryl wedi bod yn dda ers peth amser, ac wedi treulio'r wythnosau diwethaf hyn mewn ysbyty, ac mewn cartref yn Llanberis. Does ond ychydig dros chwe mis ers i Nia golli ei thad, y diweddar Richard Alun. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr fel teulu i gyd yn eich colled fawr.

**Llongyfarchiadau**
Rydym yn llongyfarch Joan Edwards, Glanrafon, ar ddod yn hen nain unwaith eto, pan aned merch fach, Nel, i'w hwyres, Lowri, a'i phartner Ian, sy'n byw ym Mraichmelyn. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd fel teulu.

**Adref**
Rydym yn falch o weld fod Phil Roberts, Stryd y Ffynnon, wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Eryri. Rydym yn dymuno'r gorau iddo am wellhad buan.

**Cyrraedd y deugain**
Penblwydd hapus iawn i Yvonne Dignam, Stryd y Ffynnon, ar ddathlu'r 40 oed ddechrau Gorffennaf. Gobeithio iti fwynhau'r dathlu gyda theulu a ffrindiau

**Priodi**
Rydym yn llongyfarch ac yn dymuno pob hapusrwydd i Michelle a Ricky Florence, Stryd Hir, ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Pob hwyl i'r ddau ohonoch!

**Geni**
Llongyfarchiadau i Bethan a Mathew, Ffordd Gerlan, ar enedigaeth merch fach. Myla Glyn. Rydw i'n sicr fod Max, y brawd mawr, wrth ei fodd gyda'i chwaer fach.

**Nain a Thaid**
Rydym yn llongyfarch Richard a Vicky Jones, Stryd Hir, ar ddod yn daid a nain i efeilliaid a aned i'w merch, Gemma, a'i phartner, Duncan, sy'n byw ym Maes y Garnedd. Rydym yn sicr fod y teulu i gyd wedi gwirioni gydag Ava a Lily, y ddwy fechan.

**Gwyliau hapus**
Ni fydd y Llais yn ymddangos ym mis Awst, felly haf hapus i bawb o'r ardal aphob llwyddiant i blant a phobl ifanc yr ardal fydd wedi cael canlyniadau eu arholiadau cyn y daw'r Llais allan eto. Pob hwyl i chi i gyd!

# Llwyddiant



Rydym yn llongyfarch Gwenfair Jones, gynt o'r Gwernydd, ond bellach o Efrog Newydd, yn ei llwyddiant diweddaraf yn y byd actio. Mae Gwenfair, sy'n ferch i Jane Jones, Gwernydd, yn portreadu Mrs Tiggy Winkle yng nghyfres newydd animeiddiol o straeon 'Peter Rabbit' gan Beatrix Potter, ac yn gwneud hynny fel gwraig o Swydd Efrog, nid o Gymru. Mae'r gyfres newydd mewn ffurf CGI ac yn cael ei darlledu yn rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae i'w gweld ar Nickelodeon ar draws yr UDA, BBC ym Mhrydain, ABC Awstralia. RTE Iwerddon ac yn fuan ar sianeli yn Ffrainc a Sgandinafia. Os hoffech weld y rhaglen, a chlywed Gwenfair, mae'n cael ei darlledu bob nos rhwng nos Lun a nos Wener ar sianel Sky 614.

Oherwydd llwyddiant a phoblogrwydd y gyfres gyntaf mae ail gyfres wedi cael ei chomisiynu. Bydd Gwenfair yn dechrau recordio'r gyfres ym mis Awst. Da iawn chdi, Gwenfair! Edrychwn ymlaen i weld y gyfres newydd, ac i glywed y ferch o'r Gerlan yn cymryd rhan flaenllaw ynddi.

# Ymweliad â'r Ysgwrn



**Dyma lun rhan o griw Clwb Cymdeithasol y Gerlan yng nghwmni Mr. Gerald Jones, y tu allan i gartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd ar 12 Mehefin.**

**CYLCH MEITHRIN GERLAN**
Mae blwyddyn arall wedi mynd heibio yng nghylch Gerlan, ac yn wir mae'r pwyllgor a'r rhieni wedi bod yn brysur tu hwnt yn codi arian dros y flwyddyn diwethaf.

Hoffem fel pwyllgor y cylch ddiolch i'r canlynol am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u ffeindrwydd
• Mr Stephen Jones am godi dros £300 drwy gymryd rhan yn y 'Tough Mudder'.
• Londis Bethesda am eu caredigrwydd wrth gyfrannu mins peis tuag at y ffair Nadolig.
• Berwyn Williams a Lee Wyn am eu cymorth arbennig yn ystod y Nadolig.
• Plant y cylch am godi dros £200 wrth ddangos eu sgiliau dawnsio gwych yn y disgo noddedig.
• Angela a Susan Speddy am gytuno i wynebu'r her o lithro ar y "Weiran Wib" ym mis Gorffennaf i godi arian i'r Cylch.
• Diolchwn i'r rhieni am eu hamser a'u cefnogaeth.

Yn olaf hoffai'r pwyllgor ddymuno lwc fawr i'r plant sydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor. Rydym yn hynod o falch a ddiolchgar eu bod wedi cychwyn eu taith yma, yn y Gerlan a dymunwn y gorau iddynt yn eu hysgolion newydd.

# Carneddi

**Derfel Roberts,**
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ **600965**

**Llongyfarchiadau**
i Ceri Christian Jones, merch Alan a Jackie Jones, Iscoed, Carneddi, ar ennill doethuriaeth mewn Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor.

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Blodeuwedd a Ieuan Wyn, Talgarreg. Bu farw mam Blodeuwedd yn ei chartref yn Nhalgarreg, Ceredigion, ddiwedd Mehefin ar ôl cystudd. Yr un yw ein cydymdeimlad gyda Menna, Gruffydd, Meilir a'u teuluoedd o golli mam-gu a hen fam-gu annwyl.

# Braichmelyn

**Rhiannon Efans,**
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ **600689**

**Profedigaethau**
Trist yw clywed am brofedigaethau rhai o'n hardalwyr yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cydymdeimlwn â hwy:

Mr a Mrs Michael Oliver a'r teulu, Capel Cwta, sydd wedi colli taid a hen daid annwyl iawn, sef Mr Edward Oliver o'r Mynydd.

Mae Shirley a'r teulu, 16 Gernant, wedi colli ewythr hoff iawn, sef Tecwyn Jones, Glanogwen.

Collodd Mrs Eirlys Jones, 4 Braichmelyn ei phriod o bron i 65 mlynedd, sef John Gwilym Jones. Nid oedd Yncl John (i ni ym Mraichmelyn) wedi mwynhau iechyd da ers peth amser. Gofalwyd yn dyner amdano gan Eirlys cyn iddo symud i gartref nyrsio. Roeddem ers tipyn wedi gweld colli cael sgwrs gydag o pan âi am dro o gwmpas yr ardal. Mae gan bawb a'i hadwaenai atgofion melys amdano. Cofiwn am ei ddau nai hefyd, David a Brian, a'r teuluoedd yn eu colled hwythau. Meddyliwn amdanoch chi i gyd yn eich galar o golli anwyliaid.

**Croeso**
Croeso yma i Mr Bleddyn Williams i fyw i 2 Cwlyn. Gobeithiwn yr ymgartrefwch yn hapus yn ein plith.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Mrs M Richardson a Mrs Myfanwy Morris, gynt o 2 a 3 Braichmelyn sydd mewn cartrefi nyrsio. Byddwn yn meddwl amdanoch reit aml.

Ein hatgofion at bawb arall sydd mewn unrhyw anhwylder iechyd hefyd.

# Talybont

**Neville Hughes,**
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

**Geni**
Llongyfarchiadau i Mark a Natasha, 12 Dolhelyg, ar enedigaeth merch fach, Alexis, chwaer fach newydd i Abigail, Sophie a Ryan.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Jean Hughes, 3 Talybont , ar ennill gradd BA mewn Celf ym Mhrifysgol Bangor.
Llongyfarchiadau hefyd i Siôn Kendrick, 4 Lôn Ddŵr, ar ennill gradd BA mewn Hanes ym Mhrifysgol Manceinion. Dymuniadau gorau iddo pan fydd yn cychwyn ar ei gwrs Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth
Anfonwn ein llongyfarchion hefyd at bawb o'r ardal sydd wedi llwyddo i ennill graddau eleni.

**Ysbyty**
Da clywed fod Tony Jones, 28 Cae Gwigin, wedi cael dod adref o'r ysbyty.

**Marwolaeth**
Drwg gennym glywed am farwolaeth Mrs. Madge Bentley, gynt o Hartwell Cottage. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll yn eu profedigaeth.
Ar brynhawn Gwener, Gorffennaf 5, bu farw Mr Tommy Evans, Bro Emrys. Cydymdeimlwn ag Eirlys a'r cysylltiadau oll ar adeg mor drist.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Mrs. Val Withers, Cae Bach, yn dilyn colli ei brawd yng nghyfraith yng Nghastell Nedd.


## Capel Bethlehem

**Gorffennaf**
21 Gweinidog ;
28 Miss Nerys Jackson, C'fon.
**Mis Awst** : Dim Oedfaon.
**Medi**
01 Gweinidog ;
08 Parch. Pryderi Llwyd Jones;
15 : Gweinidog ;
22 : Parchg. Cledwyn Williams.
Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

**Ysgol Sul**
Bu rhai o'r plant yn mwynhau picnic yn Rachub ar wahoddiad Ysgol Sul Carmel. Cafwyd digon o hwyl a mwy na digon o fwyd! Diolch am y gwahoddiad caredig.
Cynhaliwyd cyfarfod olaf yr Ysgol Sul ar 7 Gorffennaf. Bydd yn ail-agor ar 8 Medi. Gwyliau llawen i'r plant – ac i'r athrawon!

**Bwrlwm Bethlehem**
Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Llais weld golau dydd, byddwn wedi bod yn mwynhau cinio i ddiweddu'r tymor yng Ngwesty'r Four Crosses, Porthaethwy. Bydd y cyfarfodydd yn ail-gychwyn brynhawn Iau, 5 Medi, am 2.15. Croeso atom.

# Mynd â Defaid i'r Mynydd



Roedd 4 Mehefin yn ddiwrnod heulog braf pan aeth Wil Cochwillan â rhai o'i ddefaid ac wyn i'w porfa ar y Carneddau. Y diwrnod hwnnw nid y cŵn yn unig oedd yn cadw cwmni i Wil ond dau o gynghorwyr Cyngor Cymuned Llanllechid, sef Megan Tomos a Margaret Fernley. Roeddynt wedi dotio ar y ffordd yr oedd Wil yn gweithio ei gŵn, heb dwrw bach na mawr, y tri yn gweithio â'i gilydd fel un.

O Gochwillan 'roedd y daith un ffordd o tua 6 milltir yn fendigedig ar ddiwrnod mor braf, ond buasai'n wahanol iawn ar dywydd anffafriol!!

Wrth gwrs roedd stopio am baned tua 11.30, a chinio dipyn yn hwyrach, yn ychwanegu at y mwynhad.

Mae'r ddwy gynghorwraig yn ddiolchgar iawn i Wil am roi'r cyfle iddynt weld y drefn o symud anifeiliaid i'r mynydd.

## Eglwys Maes y Groes, Talybont

Llongyfarchiadau i Bethan Pritchard a Trystan Lewis-Williams ar eu priodas yn yr Eglwys ar ddydd Sadwrn, 15 Mehefin. Gwasanaethwyd gan ein ficer y Parchedig John Matthews, gyda Geraint Gill wrth yr organ. Cymerwyd rhan gan Gôr Meibion y Penrhyn cyn y gwasanaeth a hefyd tra yr arwyddwyd y gofrestr. Cynhaliwyd y wledd briodas yn y Sied Fawr yn Glanmor Isaf, sef cartref y briodferch. Hoffem ddymuno pob hapusrwydd i'r ddau yn eu bywyd priodasol.



Croeso gartref i Meirion a'r teulu o Dde Affrig. Maent yn treulio gwyliau gyda mam Meirion sef Grace Griffiths, Llwyn y Wern. Da deall fod Grace yn gwella ac yn cael mwynhau cwmpeini'r teulu am gyfnod.

Gwella hefyd mae Brian Hughes, Bro Emrys, yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl yn ddiweddar.

Drwg oedd gennym glywed fod Cora Fielding, Felin Hen wedi gorfod dychwelyd i Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddi.

Pob dymuniad da i Val Withers, Cae Bach, sydd yn mynd i Ysbyty Gobowen i gael triniaeth ar ei phen-glin yn yr wythnosau nesaf.

Ar y Sadwrn olaf o'r mis cynhaliwyd te mefus blynyddol yn yr Ysgoldy. Roedd nifer yn bresennol ac fe gawsom brynhawn difyr yn eu cwmni. Diolch o galon am ein cefnogi ac i bawb am y rhoddion tuag at y raffl a'r stondinau.

Ar y Sul canlynol cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn Eglwys St Mair, Tregarth. Arweinwyd y gwasanaeth gan ein ficer y Parchedig John Matthews gyda Geraint Gill wrth yr organ. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom ginio yng ngwesty'r Victoria, Porthaethwy, lle cafodd ein ficer ei anrhegu gan Dennis Wright ar ddathlu deng mlynedd ers ei ordeinio yn offeiriad. Hoffem ddiolch o galon i Phyllis Davies am ei gwaith caled yn trefnu'r ddau achlysur mor drylwyr.

Parhau mae'r bore coffi ar y bore Mawrth cyntaf o'r mis o 10:30 hyd 12:00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

# Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

**Cymorth Cristnogol**
Dymunwn ddiolch i Miss Nerys Jones am fynd o amgylch y Bryn a'r pentref yn casglu arian er lles Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb a gyfrannodd eleni eto ac fe gasglwyd y swm o £276.00

**Gwaeledd**
Rydym yn anfon ein cofion cynnes at Mrs Beryl Hughes, 'Yr Elan', Llandygái, sydd yn Ysbyty Gwynedd wedi ei llawdriniaeth ar ddydd Mawrth, 25 Mehefin. Mae pawb yn y Bryn a'r pentref yn dymuno llwyr wellhad i chwi, Beryl.

Rydym yn meddwl llawer hefyd am Dr Pam Jones, sydd yn Ysbyty Walton, Lerpwl ers dechrau mis Mehefin. Gobeithio y bydd yn gwella'n fuan.

**Gwaeledd**
Anfonwn ein cofion annwyl at Mr a Mrs Ernie Coleman, Mr Jim Hughes, Cassie Tindall, Betty Williams, Dorothy Proudley Williams ac i bawb arall sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

**Sefydliad y Merched Llandygai**
Dathliad oedd ffurf cyfarfod Mis Mehefin - dathlu pen-blwydd y gangen yn Llandygai yn 95 oed! Cafwyd y wledd yng nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, ac eisteddodd 18 o'r aelodau i fwynhau pryd bendigedig.

Croesawodd Eira, y llywydd, bawb i'r noson arbennig yma.
Mrs Pat Jones, llywydd y ffederasiwn, oedd y westwraig a dymunodd yn dda inni fel cangen i'r dyfodol.

I orffen torrwyd cacen hyfryd, wedi ei gwneud yn arbennig inni gan chwaer Gwyneth.

Diolchwyd i Eira gan Anne a Sheila am drefnu a hefyd diolchodd Eira yn gynnes iawn i Karen a Linda am y wledd.Noson i'w chofio.



**Rhoddion er cof am Mrs. Hanks**
Ar 12 Mai cynhaliwyd Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Tegai, Llandygái, pryd y cafodd y diweddar Margaret Elizabeth Hanks ei chofio. Abnabyddid hi gynt fel Margaret Smith, a ddaeth yn ifaciwi o Lerpwl i Sling.

Derbynnir rhoddion er cof am Mrs. Hanks at Gronfa Adfer yr Eglwys, gan ei merch, Dorothy, 17 Cae Gwigin, Talybont, Bangor, LL57 3UY.

**Rhedeg Ras**
Llongyfarchiadau i Mrs Eirlys Edwards am gymryd rhan yn y Race for Life ar 2 Mehefin i godi arian tuag at Ymchwil Canser. Roedd dros 2,000 wedi cymryd rhan trwy redeg a cherdded pum cilomedr o gwmpas Caernarfon. Llwyddodd Eirlys i gasglu £600 ac nid dyma'r tro cyntaf iddi wneud hyn. Hoffai ddiolch i bawb am ei noddi.

**Llongyfarchiadau**
Mis diwethad roeddem yn dymuno'n dda i Cari Jones ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed a'r tro hwn rhaid ei llongyfarch ar lwyddo yn ei phrawf gyrru. Pob lwc i ti Cari a chofia gymryd pwyll.

## Eglwys Sant Tegai

Rydym yn anfon ein cofion cynnes at Jane Couch, Gwyn Edwards, Harry Gross ac Olwen Lytham. Byddwn yn cofio amdanoch bob Sul yn ein gweddïau ac yn colli eich cwmni yn y gwasanaethau.

**Pen-blwyddi**
Dymunwn ben-blwydd hapus i Mrs Jane Couch ar ddydd Llun, 29 Gorffennaf – gobeithio y cewch amser difyr gyda'r teulu.
Rydym yn dymuno dathliad hapus i'r Parchedig J Aelwyn Roberts fydd yn cael ei ben-blwydd yntau ddiwedd Awst. Byddwch yn siŵr o gael amser da. Tybed a fydd yna bicnic eleni.

**Ffarwelio**
Roeddem yn drist iawn pan gyhoeddwyd bod y Barchedig Jenny Hood yn gadael Dyffryn Ogwen ac yn mynd i Fanceinion fel Caplan Ysbyty yn Salford. Roeddem wedi dod i'w hadnabod yn dda gan ei bod wedi dod sawl tro i Sant Tegai i wasanaethu'r cymun.

Cafodd wasanaeth ymadawol hyfryd yn Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair nos Sul, 23 Mehefin. Diolch o galon i chi Jenny, a'n braint ni oedd cael eich adnabod. Diolch i aelodau'r eglwys am eu croeso; roedd yn braf cael cyfarfod â hen ffrindiau unwaith yn rhagor.

**Diolch**
Mawr ddiolch i aelodau o Eglwys Maes y Groes am eu croeso i ni ar ddydd Sadwrn, 29 Mehefin i'r Te Mefus yn Ysgoldy Talybont, Roedd yn brynhawn llwyddiannus a phawb wedi cael amser da. Diolch i Phyllis, Muriel a Bethan am baratoi popeth ac i bawb arall a fu'n gweini arnom mor drwyadl.

**Gwasanaeth Undebol**
Fore Sul, 30 Mehefin, cynhaliwyd ein gwasanaeth Undebol yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth, lle buom yn dathlu deng mlynedd ers derbyn y Parchedig John Mattews i'r Offeiriadaeth. Roedd yn wasanaeth neis iawn ac aelodau o'r tair eglwys yn cymryd rhan. Diolch o galon am eich croeso.

Cawsom ddiwedd da i'r dathliad yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy, gyda deugain ohonom yn cael cinio ardderchog a digon o hwyl. Mae ein dyled unwaith eto i Phyllis ac aelodau Maes y Groes am drefnu popeth ac i stafff y Fictoria am fod mor gwrtais gyda phawb.

**Ymddeoliad**
Dymunwn yn dda i Mr Owen John Bagnall, Porthaethwy, ar ei ymddeoliad cynnar o fod yn athro Daearyddiaeth yn Ysgol John Bright, Llandudno, ar ôl dysgu yno am 33 mlynedd. Gobeithio John y cewch iechyd i hamddena gyda Nia ac i ddilyn eich diddordeb mewn hen bethau, hel achau a garddio.

## Glasinfryn Caerhun

**Marred Glynn Jones**
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
**01248 351067**
Marred567@btinternet.com

**Sefydliad y Merched**
Cynhaliwyd cyfarfod y sefydliad ar nos Fercher 12fed o Fehefin dan lywyddiaeth Mrs Mair Griffiths.

Croesawyd pawb ac anfonwyd ein dymuniadau gorau i Ann Illsley sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty ac i Cora Fielding sydd, yn anffodus, wedi ei chymryd yn wael yn yr Iwerddon ac sydd yn yr ysbyty. Mae Cora hefyd wedi cael profedigaeth ac yr ydym yn meddwl llawer amdani.

Bydd Jocelyn Bowen yn paratoi ar gyfer triniaeth yn o fuan a dymunwn y gorau iddi hithau.

Ar nodyn hapusach, braf yw cael llongyfarch tair aelod ar eu pen-blwyddi sef Margaret Griffith, Nesta Parry, a Grace Mudd. Pen-blwydd Hapus!

Bu pum aelod yn ymweld â gardd Mrs Eirlys Edwards yn Llandygai ddechrau'r mis. Diolch am ddiwrnod braf a chroeso mawr.

Oherwydd i'r wraig wadd orfod gohirio dod i osod blodau bûm yn lwcus a ffodus dros ben o gael cwmni Mrs Linda Pritchard o Fethesda, ar fyr rybudd, i lenwi'r bwlch. Mae Linda yn berchen cwmni Crefftau Howget a chafwyd arddangosfa fendigedig o'i gwaith llaw lliwgar. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi cael cyfle i archebu'r nwyddau arbennig.

Diolch, Linda, a brysiwch atom eto (efallai yn nes at y Nadolig). Diolch hefyd i Mair am drefnu ar y funud olaf.

Bu'r diolchiadau yng ngofal Liz Bestwick a'r banad gan Elizabeth Evans a Janet Rees.

Hwyl i bawb sy'n trefnu gwyliau, gobeithiwn eich gweld ar ein trip blynyddol mis nesa gan gyfarfod yn y Victoria ar ben y daith.

**Y Ganolfan**
Yn eu cyfarfod pwyllgor diwethaf, penderfynodd aelodau Pwyllgor Rheoli Canolfan Glasinfryn yn unfrydol na fyddan nhw codi'r ffioedd sy'n cael eu talu gan ddefnyddwyr y Ganolfan. Mae'r ffioedd yn rhesymol iawn ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi gan grwpiau ac unigolion lleol. Mae sawl grŵp yn defnyddio'r Ganolfan erbyn hyn, gydag amrywiaeth o ddosbarthiadau difyr yn cael eu cynnal yno. Mae'r Ganolfan yn lle poblogaidd ar gyfer partïon pen-blwydd hefyd. Ac os ydych chi'n cynnal digwyddiad yn lleol, mae cadeiriau ar gael i'w llogi. Am fwy o fanylion am yr hyn sy'n cael ei gynnig gan y Ganolfan, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Mair Griffiths, 01248 352966.

## Pentir

**Anwen Thomas,**
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

## Eglwys Sant Cedol

**Sinfonia Cymru**
I ble fydd ein cerddorion proffesiynol yn mynd nesaf? Bu rhai ohonynt yn cymryd rhan yng nghyngerdd Sinfonia Cymru yn Galeri Caernarfon ar 6 Gorffennaf, gyda Glain Dafydd yn chware rhan y delyn yn La Mère L'Oye gan Ravel.

**Clwb 100 - Mis Mehefin**

1af Rhif 50
Eirwen Williams, Rhiwlas

2ail Rhif 41
Phyllis Jones, Rhiwlas

3ydd Rhif 63
Eira Crocombe, Tregarth

**Bingo**
Ar nos Wener, 21 Mehefin, yn y Ganolfan, Glasinfryn cafwyd noson lwyddiannus o Fingo er budd yr Eglwys. Hoffwn ddiolch i Mary am alw'r rhifau ac i bawb am ei cefnogaeth.

**Ffarwelio â'r Curad**
Prynhawn Sadwrn, 22 Mehefin, cafwyd bwffe i ddiolch i'n Curad Jenny Hood a oedd yn gadael y plwyf ddiwedd Mehefin. Anrhegwyd Jenny gyda llun dyfrlliw o Dryfan a tusw o flodau i ddangos ein gwerthfawrogiad fel eglwys i Jenny am ei gwasanaeth dros y tair blynedd diwethaf.

**Gwellhad**
Anfonwn ein cofion fel Eglwys at Ann Illsley, Pencefn, Pentir a Mair Roberts, Hafod Lon, Rhiwlas y ddwy wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Brisiwch wella eich dwy.

PICNIC A CHERDDORIAETH
YM MHENTIR

Yn Nghae Bryn Meddyg
Nos Sadwrn 27 Gorffennaf.
Tocynnau £5.00 Oedolion
Plant gydag oedolyn am ddim.

Cerddoriaeth gan
Y SHORELINERS

Llais Ogwan 10

# Rhiwlas

**John Huw Evans,**
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎**352835**

**Apêl am Gymorth**
Tybed a fyddai rhai o ddarllenwyr Llais Ogwan yn Rhiwlas yn barod i helpu gyda'r gwaith o ddosbarthu'r papur yn y pentref? Buasawn yn ddiolchgar pe baech yn cysylltu â mi ar y rhif uchod cyn diwedd Awst.

Mae angen help hefyd i nôl y papur o Fethesda unwaith y mis. Y bwriad yw creu rota i ysgafnhau'r gwaith. Mae'r dyddiad y mae'r papur yn cael ei blygu i'w weld ar yr ail dudalen yn fisol.

**Rhedeg Marathon Llundain**
Yn dilyn ymweliad yr Archesgob Tutu ag Ysgol Gyfun Plasmawr, Caerdydd, ym mis Hydref 2012, penderfynodd Gwyn Rhys Jones, Erw Wen, redeg marathon Llundain er budd Dolen Cymru.

Mae Dolen Cymru mewn bodolaeth ers 27 mlynedd ac mae'n fudiad sy'n creu cyswllt rhwng Cymru a Lostho ym meysydd addysg, iechyd, llywodraeth a chymdeithas sifil, gyda'r gallu i newid bywydau.

Efallai i rai ohonoch weld cyfweliadau Gwyn, yn ogystal â bechgyn Bethesda, ar raglen Heno ar S4C. Llwyddodd Gwyn i gwblhau'r 26 milltir mewn 3 awr 47 munud.

Un o noddwyr Dolen Cymru yw'r Tywysog Harry ac ar ddiwedd y ras derbyniodd y pum rhedwr yn nhim Dolen Cymru wahoddiad ganddo i arddwest. Felly ar 11 Gorffennaf bydd Gwyn, a'i gymar Bronwyn o Vancouver, ymysg y cannoedd o wahoddedigion yng ngerddi Palas Buchingham.

**Dymuno Gwellhad**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Eric Jones, Hen Ysgubor, Caeau Gleision. Wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd mae Eric ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, lle mae'n gwella'n raddol.

Treuliodd Richard Williams. 19 Caeau Gleision, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd hefyd. Er ei fod adref erbyn hyn y tebygrwydd yw y bydd yn rhaid iddo wynebu llawdriniaeth unwaith yn rhagor. Dangosodd Richard a Catherine ei briod ddewrder anhygoel dros gyfnod gwaeledd Richard.

Prawf o'r datblygiad yn y ffordd y caiff y rhai sy'n dioddef o anhwylder ar y pen-glin eu gwella yw'r driniaeth a gafodd Huw Griffith, Castell yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar. Yr oedd yn dioddef o boen yn y pen-glin ac oherwydd bod modd gwella'r cyflwr gyda llawdriniaeth 'twll clo' roedd yn ôl gartref yn ystod y prynhawn. Mae'n dda dweud bod y boen yn graddol gilio wedi cyn lleied o amser yn yr ysbyty.

Dymunwn wellhad buan i Meurig Williams, Bro Rhiwen, gan ei fod yn yr ysbyty ar adeg anfon y newyddion i'r Llais.

**Clwb Rhiwen**
Cyfarfu'r gangen ar 19 Mehefin yn y Neuadd a chafwyd paned a sgwrs a chyfraniadau gan yr aelodau. Darllennodd Frances ddarn o farddoniaeth hynod o fachog am y lein ddillad. Cafwyd lluniau gan Dee o'r amrywiol lefydd ar y cyfandir y bu'n ymweld â hwy. O gofio ein bod ar drothwy mis Gorffennaf, neu 'orffen haf' yn ôl un eglurhad, aeth Iona ymlaen i sôn am darddiad enwau dyddiau'r wythnos a misoedd y flwyddyn gan nodi rhai o'r rhigymau a ddysgwyd i ni ers talwm er mwyn eu cofio.
Diolchwyd i Eirlys am wneud y baned.

**Dyddiadau i'w cofio:**
**17 Gorffennaf,**
taith ar Reilffordd Llyn Padarn.
**31 Gorffennaf,**
te i ddathlu diwedd y tymor.

**Dathlu Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill gradd yn dilyn tair blynedd o astudio mewn gwahanol brifysgolion.

**Kim Roberts**, merch Michael ac Alison Roberts, 9 Caeau Gleision. Graddiodd mewn Seicoleg Gymhwysol ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl.

**Eurfon Davies**, 43 Caeau Gleision a enillodd radd mewn Dylunio a Thechnoleg ym Mhrifysgol Bangor. Mae Eurfon yn fab i Dafydd a Carol Davies, 12 Caeau Gleision. Gan efelychu ei gŵr, mae Annmarie, priod Eurfon wedi ennill gradd Nyrsio ym Mangor.

**Ifan Alun**, mab Ieuan a Donna Hughes, Gwelfryn, gynt o 26 Bro Rhiwen. Graddiodd Ifan yn dilyn astudiaeth mewn Hyfforddi Chwaraeon ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Llinos Wynne Owen**, merch Olwen a Gareth Owen, 52 Caeau Gleision. Graddiodd mewn Astudiaethau Plentyndod ym Mhrifysgol Bangor. Mae Llinos yn gweithio ar hyn o bryd gyda gwasanaeth cefnogi plant gydag anghenion arbennig.

Mae Llinos, Ifan ac Eurfon yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Dyffryn Ogwen a Kim o ysgol Tryfan, Bangor.

**Mae Heledd Melangell,** merch Gwen ac Eilian Williams, Nant Peris a Bro Rhiwen wedi graddio yn y Gymraeg o Brifysgol Caerdydd.

**Mynegi Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn gywir gyda Mr a Mrs Derek Jones, 26 Bro Rhiwen. Bu farw tad Mrs Jones, sef Mr Edward Oliver ym Mynydd Llandygái ddechrau Mehefin.
Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Oliver yn ogystal. Bu'n hynod ofalus o'i phriod.

**Gadael Ysgol**
Gadawodd nifer o bobl ifanc y pentref ddiwedd tymor yr haf; rhai i fynd i goleg ac eraill i ddilyn gyrfaoedd mewn gwahanol swyddi. Rhai hefyd i ddechrau ar brentisiaeth i ennill cymhwyster mewn crefft. Un o'r rhain yw Morgan Huw Evans, Cae Glas. Dechreuodd Morgan ar brentisiaeth fel technegydd llwyfan gyda chwmni drama'r Frân Wen ym Mhorthaethwy.

Dymunwn lwyddiant iddynt i gyd.

**Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas**
Aeth aelodau o'r gangen am swper diwedd tymor i'r Four Crosses, Porthaethwy, a braf oedd gweld ein llywydd, Ann y bresennol, ac mewn hwyliau da hefyd.

Cawsom bryd blasus a digon o gloncian! Bu Carys yn trafod rhaglen y dydd flwyddyn nesaf a diolchwyd iddi hefyd am drefnu'r noson.

**Capel Peniel**
Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr ym Mangor wedi gwahoddiad gan Gyfundeb Eglwysi Gogledd Arfon; felly mae'n adeg prysur i Cynrig, sy'n Llywydd y gyfundeb, Cynhaliwyd cyfarfodydd yn y coleg ym Mangor, Capel Pendref, Theatr Seilo a Chapel Salem, Caernarfon. Cafwyd cyflwyniad Môr a Mynydd ar nos Iau, yn portreadu ardaloedd yr eglwysi sy'n perthyn i'r Gyfundeb. Roedd Valmai a Iona yn rhan o gôr y cyflwyniad ac wedi mwynhau'r profiad.

Gwellhad buan hefyd i Adrian Stokes, 36 Ffordd Tanrhiw sydd hefyd yn Ysbyty Gwynedd.

**Profedigaethau**
Cydymdeimlwn fel ardal gyda Maud Griffiths, Gilfach, Dob, a'i brawd Gareth Oliver, Ty'n Clawdd, a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli eu tad, sef Mr Edward Oliver, Mynydd Llandygai.

Daeth profedigaeth i ran Allison a Mike Owen a'r teulu, 24 Tal y Cae, pan fu farw tad Allison, sef Ffrancon Williams, Min Menai, Eithinog, Bangor, ar 30 Mai, ac yntau'n 86 mlwydd oed.

Ar 27 Mehefin daeth y newyddion trist am farwolaeth Megan Davies (Megan Post) 3 Ffrwd Galed yn Ysbyty Gwynedd yn 84 mlwydd oed. Bu farw ei phriod Amwel rai blynyddoedd yn ôl a gedy bedair nith sef Mair, Eirianwen, Valerie a Gwyneth . Cydymdeimlwn gyda holl deulu Megan yn eu hiraeth. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, Dydd Gwener, 5 Gorffennaf.

Daeth newyddion trist am farwolaeth Kathleen Wendy Owen yn 74 mlwydd oed mewn Cartref Nyrsio yn Penisarwaun ar 29 Mehefin. Roedd yn briod â'r diweddar Meirion Owen a buont yn cartrefu yn Erw Faen a Maes Ogwen, Tregarth. Ni bu Wendy yn dda ei hiechyd ers blynyddoedd a chydymdeimlwn gyda'r plant Andrew, Terrance, Philip a Judith a'u teuluoedd a gyda'i chwaer Sandra a'i modryb Lillian Brocklebank. Cynhaliwyd ei hangladd yn Shiloh, Dydd Llun, 8 Gorffennaf ac yna yn Amlosgfa Bangor.

**Cneifio**
Llongyfarchiadau i Ioan Alun Doyle, Pant Teg ar ennill y wobr gyntaf am gneifio i rai dan 25 mlwydd oed yn Sioe Amaethyddol Dyffyn Ogwen.

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Elin Roberts, 10 oed, Pant Teg, ar ei llwyddiant yn ei harholiad canu'r ffidl yn ddiweddar. Dal ati Elin, a phob lwc!

# Tregarth

**Gwenda Davies,**
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

**Priodas**
Dydd Gwener, 6 Mehefin, yng Ngerddi Bodnant, Dyffryn Conwy, cynhaliwyd priodas Magwen Griffiths a Stephen Davis. Mae Magwen yn ferch i Maud Griffiths a'r diweddar Cledwyn Griffiths, Gilfach, Dob, Tregarth. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

**Gwaeledd**
Ar hyn o bryd mae Andrew Hughes, Gwern Eithin, Tal y Cae, Tregarth, yn ysbyty Gwynedd a dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

## Capel Shiloh, Tregarth

Oedfaon am 5 o'r gloch yr hwyr a'r Ysgol Sul am 10.30 y bore.

**Gorffennaf**
21 Mr J.O.Roberts, Bethesda
28 Mr Merfyn Jones, Caernarfon.

**Awst**
Ni chynhelir Ysgol Sul ac oedfaon yn ystod Mis Awst yn Shiloh

**Medi**
01 Parchedig Gwynfor Williams
08 Parchedig Reuben Roberts,
15 Diacon Stephen Roe,
22 Parchedig Philip Barnett,
29 Parchedig Eric Roberts,

Bydd Ysgol Sul Shiloh yn ailgychwyn fore Sul, 8 Medi

Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth un o aelodau Shiloh, sef Mrs Megan Davies, Ffrwd Galed. Daeth yn aelod yn Shiloh wedi i Gapel Penygroes, Tregarth, gau rai blynyddoedd yn ôl. Bu'n organydd yno am rai blynyddoedd ac roedd yn selog ac yn gefnogol iawn i'r holl wasanaethau yn Shiloh. Gwelir ei cholli'n fawr yn y gwasanaethau a chydymdeimlwn gyda'i theulu oll.

**Miri Mehefin**

Bu Miri Mehefin, sef Cymanfa Ysgolion Sul Arfon, yn llwyddiant mawr eto eleni. Yng Nghanolfan Gymdeithasol/Ysgol Penisarwaun y cynhaliwyd y Miri eleni ar dydd Sul, 23 Mehefin gydag aelodau Ysgol Sul Bosra, Penisarwaun yn gyfrifol am weithgareddau'r pnawn.

Croesawyd pawb gan Mrs Lis Jones, Penisarwaun a rhoddodd groeso arbennig i'r Arweinydd Canu, sef Mererid Mair, Caernarfon a'r cyfeilydd Lois Eifion. Plant a phobl ifanc Shiloh gymerodd y rhannau dechreuol eleni, sef gwaith ar y thema o Dduw yn creu'r Tymhorau. Roedd aelodau'r Ysgol Sul, gyda chymorth rhieni wedi creu murlun lliwgar dros ben i ddynodi'r Tymhorau a bydd yn cael ei hongian yn Festri Shiloh er mwyn i pawb gael ei weld.



Cafwyd canu ardderchog, hwyliog a defosiynol, a phawb o'r gynulleidfa yn rhoi o'u gorau i ddathlu ac addoli. Rhoddwyd medalau a thystysgrifau i'r rhai a fu'n casglu at y Genhadaeth Gartref a Thramor. Roedd dros £300 wedi ei gasglu gan y tair Ysgol Sul, sef Bosra, Penisarwaun; Shiloh, Tregarth ac Ebeneser, Caernarfon. Diolchwyd i bawb am bnawn gwerth chweil gan y Parchedig Gwynfor Williams, gan ddiolch yn arbennig i aelodau Bosra am baratoi Te Parti ardderchog ar gyfer pnawb ar derfyn y pnawn.

Gair o ddiolch

Dymuniad y Parchedig Philip Barnett a'i briod Catherine, Deganwy, ydi diolch o waelod calon i aelodau Capel Shiloh ac aelodau o Gangen Tregarth o Ferched y Wawr wnaeth eu noddi ar eu taith o Land's End i John O'Groats i gasglu arian at Multiple Sclerosis. Mae eu mab Tim, sydd yn byw yn Glossop, yn dioddef o'r cyflwr. Cofiwn fod y teulu wedi bod yn byw yn Pant Teg, Tregarth ar un cyfnod. Hyn yn hyn mae'r teulu wedi casglu dros £4000 tuag at yr elusen o ganlyniad i'r daith yn eu Morris Minor bach gwyrdd ! Llongyfarchiadau i chi fel teulu.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**

Nos Wener, 21 Mehefin, yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth daeth aelodau'r Mudiad o amrywiol ganghennau yn Arfon at eu gilydd i baratoi Noson o arddangos gwaith crefft.
Gwnaed yr holl drefniadau gan Margaret Jones, Cae Drain, gyda chymorth eraill o aelodau'r Mudiad. Hyfryd oedd gweld gwaith crefftus y gwahanol ganghennau ac yn ystod y noson cafodd gwaith ei ddewis i'w arddangos a'i feirniadu yn Sioe Llanelwedd ym Mis Gorffennaf. Diolch i bawb fu'n paratoi ac yn gweithio yn ystod y noson am eu cefnogaeth.

Bydd tymor newydd o'r gangen yn cychwyn Nos Lun, 2 Medi am 7.30 o'r gloch yn Festri Capel Shiloh. Noder yr amser cychwyn newydd.
Bydd croeso cynnes iawn i aelodau newydd i ymaelodi am eleni a'r un croeso wrth gwrs i aelodau sydd wedi bod yn rhan o'r gangen ers blynyddoedd.
Noson Bwffe a Phianydd fydd y noson agoriadol. Cawn groesawu pianydd ifanc o Fangor, sef Gwenno Morgan i'n diddanu. Enillodd Gwenno Ruban Glas Offerynnol dan 16 mlwydd oed yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2011.
Dewch yn llu i fwynhau tymor newydd o nosweithiau fydd wrth eich bodd.

**Clwb 100 Canolfan Tregarth**

**Mis Mai**

| | | |
|---|---|---|
| 51 | Eleri Jones | £15 |
| 03 | Gomer Davies | £10 |
| 38 | Enid Roberts | £ 5 |

**Mis Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| 53 | Nigel Beidas | £15 |
| 23 | Gwenda Davies | £10 |
| 15 | Buckley Wyn Jones | £5 |

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen.**
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ **600744**

**Diolch**

Dymuna Mrs Margaret Oliver a theulu'r diweddar Edward Oliver, 5 Arafon, ddiolch o galon am bob cydymdeimlad, galwad ffôn, cerdyn ac ymweliad a dderbyniwyd. Diolch arbennig i gymdogion a fu mor ffyddlon ac i'r Tîm Gofal Bro am gymorth amhrisiadwy. Diolch i'r Parchedig Hugh John Hughes am ei wasanaeth, i Mrs Olwen Jones ar yr organ ac i'r ymgymerwr Mr Stephen Jones am ei drefniadau trylwyr. Fe rennir y rhoddion rhwng achosion lleol.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â'r Cynghorydd Gwen Griffith a'r teulu yn dilyn profedigaeth o golli mam Gwen. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth.

## Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

**Gorffennaf**
21 Cymun Bendigaid 9.45
28 Boreol Weddi 9.45

**Awst**
04 Gwasanaeth Teuluol 9.45
11 Cymun Teuluol 9.45
18 Cymun Bendigaid 9.45

**Cynhelir y Bore Coffi** blynyddol fore Sadwrn, 14 Medi yn Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, gan fod Neuadd Ogwan yn cael ei hatgyweirio. Diolch i Goed y Brenin am eu caredigrwydd.

Ar ddiwedd Mehefin, bu'n rhaid ffarwelio a'r Curad, y Barchedig Jenny Hood. Diolchwn yn fawr iddi am ei gweinidogaeth, ei charedigrwydd a'i gofal drosom yn ystod ei hamser gyda ni. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd fel Caplan yn Ysbyty Frenhinol Salford, Manceinion.

Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref neu unrhyw wasanaeth arall, cysylltwch â'r Parchedig John Matthews (364991) neu un o'r wardeiniaid.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, yn enwedig Mrs Theta Owen sydd wedi torri'i braich; anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

## Eglwys y Santes Fair Tregarth


**Gorffennaf**
28 Cymun Benigaid

**Awst**
04 Gwasanaeth Anffurfiol
11 Cymun Bendigaid
18 Boreol Weddi
25 Cymun Bendigaid

**Pob Gwasanaeth am 9.45 y.b.**

**Clwb Cant Mehefin**

**£20.00 (50)** James Griffiths
**£10.00 (20)** Mair Owen
**£ 5.00 (73)** Martyn Lewis



**Dathlu 10 mlynedd**

Ar ddydd Sul 30 Mehefin cawsom wasanaeth arbennig yn yr Eglwys.

Roedd y Parchedig John Matthews yn dathlu 10 mlynedd ers iddo gael ei ordeinio yn offeiriad.

Daeth cynulleidfa Sant Tegai a Maes y Groes atom, a braf oedd gweld cynifer yno.

Wedyn aeth tua deugain ohonom i Westy'r Victoria, Porthaethwy, i gael cinio.

Diolch yn fawr i Phyllis am drefnu'r cinio.

# Dathlu 75 Mlynedd yn y Dyffryn

Ym 1938, sefydlwyd cwmni paent mewn lle o'r enw Bradshaw, ar gyrion Manceinion. Wrth feddwl am enw ar y cwmni, penderfynwyd cymryd elfen gyntaf enw'r lle, 'Brad-', ac ychwanegu ato'r terfyniad '-ite' (a oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd i ddisgrifio cynnyrch technolegol newydd). A dyna eni 'Bradite' sydd yn enw cyfarwydd iawn i ni yn Nyffryn Ogwen.

Ddechrau'r Ail Ryfel Byd, a'r gwaith bellach wedi'i sefydlu yn Coventry, roedd bygwth bomiau'r Almaenwyr yn ddigon i beri i'r cwmni godi ei bac a symud ym 1941 i ddiogelwch cymharol Eryri. Gwnaeth ei gartref yng Nghoed-y-Parc ac yn dilyn penderfyniad i aros yno ar ôl y Rhyfel, codwyd ffatri ym 1949. Mae'r cwmni bellach yn cyflogi 25 o bobl yng Nghoed-y-Parc ac yn masnachu erbyn hyn yn enw Bradite a'r Little Greene Paint Company drwy wledydd Prydain, Ewrop a Rwsia.

**Paent o'r radd flaenaf**
Mae Bradite yn cynhyrchu paent o ansawdd uchel ar gyfer amrediad eang o ddiwydiannau, gan ddarparu paent morol ar gyfer cychod a llongau, haenau gwarchodol i sicrhau parhad hirdymor ar goncrit ac adeileddau dur. Mae Bradite hefyd yn darparu paent ar gyfer y cartref, y tu mewn a'r tu allan; cytiau cŵn, parlyrau godro, tractorau, peiriannau amaethyddol, lloriau warws a modurdy, pyllau nofio, gan gynnig cymaint â deng mil o wahanol liwiau - a'r cyfan wedi eu gwneud a'u gwerthu yng Ngweithfeydd Dyffryn Ogwen yng Nghoed-y-Parc. Mae holl gynhyrchion Bradite yn dechnegol uwchraddol i gynhyrchion eraill yn yr un maes ac wedi eu gwneud gyda phob gofal gan staff lleol cyfeillgar yn y ffatri yng Nghoed-y-Parc.

**Diwrnod Agored**
Er mwyn dathlu 75 mlynedd o weithio yn Nyffryn Ogwen, penderfynodd y Rheolwr Gyfarwyddwr David Mottershead a'i staff gynnal diwrnod agored fore Gwener, Mehefin 21. Rhoddwyd gwahoddiad i drigolion y dyffryn i fwynhau panad a lluniaeth ysgafn cyn cael cyfle i weld y gwahanol adrannau yn y ffatri a'r amrywiol gamau yn y broses o wneud y paent. Aethpwyd â grwpiau o gwmpas y gweithle cyfan, dan arweiniad gwahanol aelodau o'r staff, a theimlai pawb iddynt gael agoriad llygad o safbwynt yr hyn oedd yn digwydd o fewn adeilad yr oedd llaweroedd ohonyn nhw wedi mynd heibio iddo mor aml dros y blynyddoedd. Roedd y cwmni hefyd wedi trefnu raffl a chodwyd £250 tuag at Dîm Achub ar y Mynydd Dyffryn Ogwen. Kathleen Davies o Ddeiniolen a enillodd y wobr gyntaf sef cyfle i fynd ar y Wifren Wib yn Chwarel y Penrhyn.

**Siop Baent ar ei newydd wedd**
Roedd Mr Douglas Madge, Maer Dinas Bangor, yn bresennol i agor y siop sydd ar ei newydd wedd ar y safle a llongyfarchodd y cwmni ar ei lwyddiant. Ymatebodd Mr David Mottershead gydag ychydig eiriau o ddiolch diffuant i bawb a fu wrthi'n gwneud y paratoadau ar gyfer y Diwrnod Agored. 'Hoffwn ddiolch yn arbennig,' meddai, 'i bob aelod o'n staff am eu gwaith caled, i Ganolfan Arddio Fron Goch yng Nghaernarfon ac i A55 Construction a wnaeth bopeth i sicrhau y byddai'r libart o gwmpas y ffatri yn edrych ar ei orau ar gyfer y diwrnod mawr!' Pwysleisiodd fod y cwmni'n falch o allu chwarae rhan mor allweddol yn y farchnad waith leol a mawr obeithiai y byddai'r cwmni'r parhau i ffynnu yn y dyfodol. Diolchodd i bawb a ddaeth i'r Diwrnod Agored am eu diddordeb a'u cefnogaeth.

**The Little Greene – Rhiant-gwmni Bradite**
Nodwyd bod croeso i unrhyw un alw yn y siop a phrynu paent a defnyddiau cysylltiedig, gan gynnwys gwahanol batrymau o bapur-wal o ansawdd da a gynhyrchir gan The Little Greene Company, rhiant-gwmni Bradite. Roedd y cwmni hwn newydd ennill ei le gyda'i gasgliadau newydd o baent a phapur-wal addurnol yn y farchnad foethus, lewyrchus i ddylunio'r tu mewn i adeiladau, ac mae wedi agor canolfannau arddangos ym Mharis, Munich a Llundain, ynghyd â chanolfan ddosbarthu ym Manceinion.

Ond mae'n bwysig ychwanegu y bydd staff ar gael yn Nghoed-y-Parc i gynnig gwybodaeth dechnegol yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd ag ymholiadau ynghylch paent a phaentio.

**Cymraeg yn y Gweithle**
Mynegodd sawl un yn ystod y Diwrnod Agored mor braf oedd cael cwmni mor fawr yn dal cysylltiad fel hyn â'r gymuned leol ac mor hyfryd oedd cael croeso cynnes yn y dderbynfa gan Gymraes lân loyw, gyfeillgar a chael cyfarfod wedyn â nifer o'r staff â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw – arwydd o gefnogaeth a pharch y cwmni i iaith genedlaethol Cymru.

## Côr y Penrhyn

**Eisteddfod Llangollen**
Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Llais ymddangos bydd y côr wedi ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen ar Fehefin 13. Bu'r aelodau yn brysur yn dysgu darn o'r enw "Pavane pour une Infante defunté" gan y cyfansoddwr Ffrengig Maurice Ravel, a drefnwyd i bump llais gan yr arweinydd, Owain Arwel. Profodd y darn arbrofol hwn i fod yn sialens mawr i bawb gan nad oes geiriau fel y cyfryw ynddo ac mae nifer o leisiau gwahanol yn cymryd y prif ran mewn gwahanol leoedd yng nghwrs y gân. Dau gôr arall fydd yn y gystadleuaeth ac fe gyhoeddwn y canlyniadau yn y rhifyn nesaf o Lais Ogwan.

**Cyngerdd Rhys Meirion**
Wythnos union ar ôl ymddangos yn Llangollen bydd y côr yn canu yng Nghastell Caernarfon gyda chôr meibion y dref honno mewn cyngerdd i ddathlu diwedd taith gerdded arwrol arall gan y tenor enwog, Rhys Meirion a'i gyfeillion. Llynedd, cododd Rhys swm enfawr at yr ambiwlans awyr a'r gobaith yw codi mwy eleni. Yn y cyngerdd bydd y côr yn ymddangos gyda nifer o artistiaid eraill a disgwylir cannoedd yno i wrando ac i fwynhau gwledd gerddorol arall.

**Cyngherddau Llandudno.**
At hyn oll bu'r côr yn canu mewn sawl digwyddiad yn ddiweddar gan gynnwys tri chyngerdd yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno a phriodas yn Eglwys Maes y Groes, Talybont.

Mae cryn alw am wasanaeth y cantorion eleni eto gyda thaith i Gaerdydd i ganu mewn rhaglen deyrnged i John Ogwen ac efallai i gystadlu mewn Gŵyl yn Ynys Manaw, Bydd y ddau ddigwyddiad hyn yn disgyn yn yr hydref.

## Cofio'r Miloedd

Cychwynwyd ymdrech yn 2011 i godi arian at godi cofeb i'r milwyr o Gymru a gollwyd yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ôl Peter Jones, trefnydd yr apêl, "mae'n gywilydd nad oes cofeb ar gyfer y Cymry. Mae gan filwyr o'r Iwerddon, yr Alban, Awstralia a Seland Newydd gofeb addas yn Passchendaele a Langemark yn Fflandrys".

Gyda hyn mewn golwg, sefydlwyd pwyllgor i gasglu arian ac ennyn diddordeb yn y fenter. y bwriad yw codi cofeb ar ffurf cromlech, gyda draig goch yn sefyll ar ei phen. Amcangyfrifir y bydd angen oddeutu £80,000 i wireddu'r cynllun. Mae'r cerrig wedi cychwyn ar eu taith ers 10 Gorffennaf.

Penodwyd Côr Rygbi'r Gogledd fel prif gôr y fenter ac maent yn brysur iawn ar hyn o bryd yn cynnal cyngherddau ar hyd a lled Cymru a'r Gororau. Dyma gôr a ffurfiwyd ar gyfer cystadleuaeth S4C i ddarganfod côr gorau Rhanbarthau Rygbi Cymru ac a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth. Ers hynny mae'r côr cymysg yn mynd o nerth i nerth dan arewiniad Geraint Roberts, sydd hefyd yn arweinydd ar Gor Trelawnyd. Erbyn hyn mae 69 o aelodau, o bob rhan o Ogledd Cymru o Dreffynnon i Edern.

Ar gyfer menter y gofeb cynhelir cyngherddau yn fuan yng Ngapel Beulah, Aberffraw ac ar 20 Medi yn Eglwys Sant Cadwaladr yn yr un ardal. Ym mis Hydref byddant yn teithio i gartref y 'cythraul canu', Capel Mawr, Treforys. Cynhaliwyd noson lwyddiannus yng Nghlwb Rygbi Bangor yn ddiweddar gyda'r côr a Dilwyn Morgan yn perfformio. Maent eisoes wedi bod ar daith yn Fflandrys, gan ganu yn Ostend a Bruges, ac wedi canu gyda Rhys Meirion ac Elinor Bennet mewn cyngerdd at y fenter yn Soar, Merthyr Tudful.

Mae Jill King o Fynydd Llandygái yn ymuno gyda Meurig Rees a'r Dr Mike Evans ar daith feic noddedig o Fangor i Lagemark, Fflandrys, gan gychwyn ar 5 Medi 2013 yn y gobaith o gyrraedd ar 14 Medi, Bydd nifer o feicwyr yn ymuno â nhw am ran gyntaf y daith, sef Bangor i Drawsfynydd, lle cynhelir cyngerdd mawr gyda'r côr ym Mhentref Hedd Wyn. Mae croeso i chi ymuno ar ran o'r daith neu gyfrannu at yr apêl.

Y bwriad yw dadorchuddio'r gromlech yn ystod wythnos 15 i 20 2014, bron i ganrif ers cychwyn y rhyfel byd cyntaf.



**Am fwy o wybodaeth am y fenter neu'r côr gallwch gysylltu gydag Alwyn neu Glena Bevan, Red Lion, Llanllechid ar 01248 600678.**

# Croesi'r Fenai

**gan Catrin Wager**




Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif roedd un agwedd o rwydwaith trafnidiaeth gogledd Cymru ar feddwl pawb, sef sut i groesi'r Fenai.

Ers canrifoedd, roedd teithio o Fôn i Arfon yn fenter peryglus. Gellid croesi'r afon ar fferi, drwy gerdded (yn gyflym iawn!) yn ystod trai, neu ei nofio, fel yr oedd rhaid i'r gwartheg. Ond erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, roedd cyfleoedd masnachu'n tyfu, nid yn unig rhwng Môn a'r tir mawr, ond hefyd rhwng Cymru ac Iwerddon. Er nad oedd dull boddhaol i groesi'r Fenai, parhâi Caergybi i fod yn un o'r prif borthladdoedd rhwng y ddwy wlad. Daeth y mater o wella'r siwrne o Lundain i Gaergybi yn bwnc llosg wedi pasio'r Ddeddf Uno yn 1800, ac aelodau seneddol o Iwerddon yn eistedd yn San Steffan.

Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r bont urddasol gyntaf i groesi'r dŵr peryglus hwn, ond ymhell cyn iddi gael ei chomisiynu, roedd Richard Pennant, perchennog stad y Penrhyn, wedi bod yn cysidro'r broblem. Ei ateb ef oedd adeiladu cob anferth, gyda loc a phont godi ar draws Pwll Ceris.

Hawdd teimlo drwy reddf mai syniad anymarferol ydoedd. Yn yr arolwg a gomisiynwyd gan Pennant, amcangyfrifwyd y byddai'n costio £8019.0.6d, ond i mi, y gost mewn bywydau fyddai uchaf. Roedd y peiriannydd a baratôdd yr arolwg hefyd yn ymwybodol o'r peryglon, a chynhwysodd hynny yn ei adroddiad. Awgrymodd ymneilltuo £1,000 i dalu am 'unforseen events', oherwydd 'the place is liable to many Casualties for which I trust I have made ample allowances'.

Ar y cyfan, mae Richard Pennant yn cael ei gofio fel arloeswr a gwelliannwr ystad y Penrhyn. Ond beth a esgeulusir yn aml yw'r ffaith fod Pennant wedi marw gyda dyled enfawr o £153,000. O ystyried ei fod wedi etifeddu nifer o stadau yn Jamaica a Chymru, mae'n anodd dychmygu'r gwariant fyddai'n achosi'r fath ddyled. Efallai fod y llythyr hwn yn cynnig cliw.



Ond y cwestiwn sy'n fy niddori i fwyaf yw hwn: gyda'r fath ddyled yn llyffetheirio'r ystad, sut bu i'r teulu allu adeiladu'r symbol goludog a gweladwy hwnnw, sef Castell Penrhyn, lai nag ugain mlynedd ar ôl etifeddu'r fath ddyled?


MODURON PANDY Cyf.

**Tregarth**
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

**Ffôn: 01248 600619 (dydd)**

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634195**



Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**Modurdy Central**

**Ceir ail-law ar werth**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎601031**

**Blodau Hyfryd**

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (*gyda'r nos* 602767)
***Blodau ar gyfer pob achlysur***

**Priodasau, Angladdau ayyb**
**Ffres a Sidan**

*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*

**Cerbydau Penrhyn**

**CABIAU A BYSIAU MINI**
**Ffôn: (01248) 600072**

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd**
**Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth**
**Ambiwlans Gogledd Cymru**

**Elwyn Jones & Co**

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd**

**- Cyfreithwyr -**
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

***Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol***
***Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar***

***Swyddfeydd eraill:***

| | | |
|---|---|---|
| *Llangefni (01248) 723106* | *Amlwch (01407) 831777* | *Benllech (01248) 852782* |
| *Caernarfon (01248) 673616* | | *Pwllheli (01758) 703000)* |

**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**

**A.G.L.** Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

*Blodau Racca*

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r ansawdd gorau*
*- gan hogan o Rachub*

***Ffôn: 01286 870605***



**Posh Paws**

**Tacluso Cŵn**

**Busnes lleol**

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
**Gwasanaeth casglu a danfon**

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
**01248 671382** neu **07935324193**
Ebost: juliaposhpaws@btinternet.com

# Sêr cerddorol

Yn ddiweddar bu nifer o blant a phobl ifanc y Dyffryn ar gwrs haf Gwasanaeth Ysgolion William Mathias. 'Sêr' oedd thema'r cwrs a chafodd y criw lawer iawn o hwyl wrth baratoi at ddau gyngerdd cyhoeddus yng Nghanolfan Biwmares.



Mae gan y Gwasanaeth Ysgolion, sy'n gweithredu yng Ngwynedd a Môn, sawl cerddorfa a band, ac roedd cyngherddau'r cwrs haf yn dystiolaeth i waith caled y cerddorion ifanc a'u hyfforddwyr. Am flas o'r hwyl, chwiliwch ar YouTube (o dan 'Gwasanaeth Ysgolion William Mathias') am 'Scourse of the Caribbean', perfformiad y gerddorfa hŷn a'r gerddorfa iau o gerddoriaeth y ffilm 'Pirates of the Caribbean'. Y 'Capten' Margaret Scourse (un o'r tiwtoriaid) oedd yn arwain ac roedd yn uchafbwynt teilwng iawn i gyngerdd y nos Sadwrn. Mae perfformiad hwyliog y bandiau o gerddoriaeth 'Spiderman', dan arweiniad Gwyn Evans, hefyd yno i'w fwynhau.

Mae cerddorfeydd a bandiau'r Gwasanaeth yn cyfarfod ar ambell ddydd Sadwrn rhwng Medi a'r Pasg, gan ddysgu gweithiau clasurol ar y cyfan. Mae'r cwrs haf ychydig yn wahanol, yn dridiau dwys o ymarfer darnau mwy poblogaidd ac yn gyfle i'r criw ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Jane Parry o Dregarth ydy Tiwtor Arweiniol Chwythbrennau'r Gwasanaeth. Roedd hi'n canmol y cerddorion gan ddweud mai hwn oedd "y cwrs gorau eto" ac yn dweud ei bod hi'n edrych ymlaen at weithgareddau'r Gwasanaeth yn ystod 2013-14. Am fwy o fanylion am y Gwasanaeth, ewch i cerdd.com.

## CAEL BLAS AR DDYSGU YN Y COLEG

Bydd dau o drigolion yr ardal, Stephen Rees a Cynog Prys, yn cymryd rhan flaenllaw ym mis Medi eleni yn un o fentrau newydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef y Cynllun Dysgu o Bell.
Prif nod y sesiynau hyn ym mis Medi yw cynnig blas i oedolion o bob oed ac o bob cefndir ar y cyfleon newydd ac arloesol sydd ar y gweill gan addysg uwch i'w gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Cynllun Dysgu o Bell yn dechrau'n swyddogol ym mis Medi 2014 felly mae digon o amser gennych i brofi beth sydd ar gael. Bydd cyfranwyr o brifysgolion Aberystwyth, Bangor, Abertawe a Chaerdydd yn cymryd rhan.



**Cynog Prys**

Os ydych chi yn chwilio am her newydd neu'n dymuno dilyn un o'ch diddordebau, neu efallai eich bod am wella eich sgiliau ar gyfer byd gwaith, dyma gyfle ardderchog ichi ddysgu yn eich amser eich hunan, wrth eich pwysau, yn eich cartref eich hun ac yn eich iaith eich hun. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw awydd i ddysgu, cyfrifiadur a chyswllt band eang (broadband) â'r we.

Bydd dewis eang iawn o feysydd ar gael pan fydd y cynllun hwn yn dechrau'n swyddogol ym mis Medi 2014 a bydd darlithwyr o brifysgolion ledled Cymru yn cynnig pynciau difyr a defnyddiol. Felly ewch i'r wefan (colegcymraeg.ac.uk/dysguobell) i weld a oes rhywbeth o ddiddordeb ichi. Ac os ydych ar y we man a man ichi lenwi ein holiadur cryno a di-lol i gael cyfle i ennill gwobr (£75).

Bydd Stephen a Cynog ymhlith criw o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg a fydd yn annerch cynulleidfa genedlaethol drwy'r cyswllt fideo yn ystod ail wythnos lawn mis Medi eleni: sef prynhawn dydd Mercher (11 Medi), nos Iau (12 Medi) a bore dydd Sadwrn (14 Medi).

Dewch i Stiwdio'r Coleg Cymraeg yn Mhrifysgol Bangor i glywed Stephen, un o feibion sir Gâr a faged yn Rhydaman ac a addysgwyd yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman ac yng Ngholeg Selwyn, Caergrawnt, yn trafod ein traddodiad gwerin mewn cerddoriaeth ('Hen Alawon Newydd: Adfywiad(au) Cerddoriaeth Werin Cymru').

Mae Stephen yn hen law ar ddarlithio a bu'n dysgu nifer o bynciau amrywiol ym Mhrifysgol Bangor ers rhai blynyddoedd: o ganeuon y bymthegfed ganrif i bedwarawdau Beethoven. Er 2010 bu Stephen yn Gydlynydd Cerddoriaeth Academaidd i'r Coleg Cymraeg, gyda'r nod o gyfoethogi ac ehangu'r ddarpariaeth gerddorol cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yng Nghymru. Yn ei oriau hamdden mae'n berfformiwr profiadol ac yn aelod o'r grwpiau gwerin Ar Log a Crasdant. Dyma gyfle gwych i bawb sy'n ymddiddori mewn Cerddoriaeth ein cenedl.
Mae Cynog yn ddarlithydd mewn Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Bangor. Yn stiwdio'r Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor y bydd Cynog yn traddodi'i gyflwyniad ar gymdeithaseg a'r byd cyfoes hefyd

Ni chodir tâl o gwbl am y sesiynau blasu ym mis Medi eleni felly does dim byd i'w golli. Dewch draw i gael paned ac i weld a chlywed beth sydd gan addysg uwch i'w gynnig ichi ac i gwrdd â phobl sy'n rhannu'r un diddordebau â chithau. I gadw lle cofrestrwch nawr: dysguobell@colegcymraeg.ac.uk (Dr Owen Thomas neu Lowri Morgans: 01970 628474). I gael y manylion llawn am gynnwys a threfniadau'r sesiynau blasu ewch i:

# Marchnad Ogwen



**Dyma Stondin Crefftau Nodwydd a'i pherchennog Angharad Huws**

Bu gan Angharad ddiddordeb mewn gwaith llaw yn blentyn ifanc iawn. Mae'n cofio Nain Moelfre yn ei dysgu i bwytho drwy roi darn o ddefnydd, edau a nodwydd yn ei llaw pan oedd yno ar wyliau haf. Mae'n debyg felly, mai i'w nain y mae'r diolch am gychwyn ei diddordeb yn y maes yma. Bu'n gwneud llawer o ddillad i Rhian a Llinos yn nyddiau eu plentyndod, cyn mynychu dosbarthiadau gwnïo / teilwrio yr enwog Megan Williams, Trefor, flynyddoedd yn ddiweddarach. Ers rhai blynyddoedd bellach, mae Angharad wedi ymuno â Dosbarth Clytwaith Biwmares, ac mae'n dal i gael budd ohono, ac ers rhyw bedair blynedd mae'n rhedeg Clwb Clytwaith Bethlehem, Talybont, i nifer o ffrindiau.

Dros y blynyddoedd diwethaf derbyniodd Angharad sawl galwad i ddangos ei chynnyrch clytwaith mewn cyfarfodydd e.e. Merched y Wawr, Sefydliad y Merched, clybiau a chymdeithasau o bob math. 'Roedd wedi synnu at ddiddordeb pobl yn ei gwaith, gydag amryw yn prynu ac yn archebu eitemau amrywiol megis bagiau, clustogau, cwiltiau ac addurniadau o bob math.

Pan sefydlwyd Marchnad Cynnyrch Dyffryn Ogwen derbyniodd gais i gynnal stondin Cynnyrch Clytwaith yn fisol – ac mae'n mwynhau'r profiad yn fawr.

Mae Marchnad Ogwen yn awyddus i gefnogi achosion da yn y gymuned trwy ganiatáu un Stondin Elusen bob mis. Dewch i'r Farchnad i gael mwy o fanylion. Mae gwybodaeth am y Stondinau, a phopeth arall y byddwch angen ei wybod am Farchnad Ogwen ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk

Mae'r Farchnad nesaf ar 10fed o Awst i mewn yn y Clwb Rygbi. Yn ogystal â'r Stondinau arferol, mae Caffi ar gael a digon o le hwylus i barcio. Croeso cynnes!

## Copa

**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Mwy o fanylion gan Wendy ar 07748206817

## Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

**Oriau Agor**
**Llun – Gwener: 6.00 - 11.00**
**Sadwrn: 3.30 – 12.00**
**Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00**

**01248 600219**

**www.douglas-arms-bethesda**

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

## CAFFI COED Y BRENIN

**1 Rhes Buddug, Bethesda**

**Ffôn: 01248 602550**

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus**
***(mewn awyrgylch cyfeillgar)***

**Cinio arbennig bob dydd Iau**

**Bwyd i'w gario allan**

**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati**
***(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)***

**Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd**

**Prisiau rhesymol**

## BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

**Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer**

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

## Gareth Williams

**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**

**GWASANAETH DYDD A NOS**

## Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

FINE ART TRADE GUILD

## LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566
**Archfarchnad hwylus**
**Gwasanaeth personol**
**gyda'r pwyslais ar y cwsmer**
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**
**7 diwrnod yr wythnos**

**Pob math o waith trydanol**

## Huw Jones

**Ymgymerwr Trydanol**
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
**Ffôn: 01248 602480**

## STEPHEN JONES

✝

TREFNYDD ANGLADDAU

**Hefyd ymgymryd â gwaith cerrig beddi: adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

**Gwasanaeth personol ddydd a nos**

## JOHN ROBERTS



**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**

**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

## C.L. JONES

**Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu**

| | |
|---|---|
| Bethesda | 01248 600045 |
| Caernarfon | 01286 676070 |
| Llangefni | 01248 751677 |

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**

| | |
|---|---|
| Mynytho | 01758 730768 |
| LLanrwst | 01492 640794 |
| Siop yn Llanrwst | 01492 640794 |

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni**

# Pesda, Hibs a Chelsea

### Wyddech chi fod yna chwaraewr pêl-droed proffesiynol a rhyngwladol wedi ei eni ym Methesda?

Ganwyd Robert yn blentyn i Sam ac Ann Atherton yn Llys Dafydd ar 29 Gorffennaf 1976. Gweithiwr teligraff gyda'r Swyddfa Bost oedd Sam, a theithiau drwy Brydain yn sefydlu gorsafoedd teligraff, ac roedd Ann yn hannu o Gaernarfon. Oherwydd natur y gwaith prin fu arhosiad y teulu ym Methesda. Yn wir, pedair oed oedd Robert pan symudodd y teulu i Lerpwl ac, yn ddiweddarach, i Gaeredin, lle tyfodd yn bêl-droediwr addawol.

Ymunodd â chlwb Dairy Primrose, tîm amatur lleol, cyn i glybiau proffesiynol ddangos diddordeb ynddo. Ym 1896 arwyddodd i Heart of Midlothian ar gyflog o chweugain yr wythnos. Fe'i cafodd yn anodd torri i mewn i dîm cyntaf llwyddiannus iawn y clwb yn y cyfnod hwnnw, ond bu ei berfformiad yn yr ail dîm yn ddigon i godi ei gyflog i £2.00 yr wythnos. Roedd yr ail dîm yn llwyddiannus iawn, gan gipio pencampwriaeth eu cynghrair ddwywaith yn ogystal â chwpan y gynghrair,

Robert Atherton



Goliau Robert Atherton oedd yn bennaf gyfrifol am y llwyddiant. Yn ôl David Speed, hanesydd y clwb:
"Daeth gwasgfa ariannol ar y clwb a bu'n rhaid gwerthu nifer o'u chwaraewyr gorau, gyda Robert yn eu plith", meddai "ond ni fu'n hir dyn iddo arwyddo i glwb arall y brifddinas, Hibernian, lle cafodd lwyddiant mawr". Mae Owain Tudur Jones o Fangor newydd ymuno â'r clwb yma eleni.

Bu Robert gyda Hibernian rhwng 1897a 1903, gan chwarae 97 o gemau a sgorio 36 o goliau. Yn ôl Tom Wright, hanesydd y clwb, bu hwn yn gyfnod llwyddiannus. "Gwnaed Bob yn gapten yn nhymor 1901 hyd at 1903 a llwyddwyd i godi cwpan yr Alban am y tro cyntaf". Adroddodd Tom hanes difyr ynglŷn â'r gôl a drechodd Rangers ar y diwnod. Pan ddaeth y bêl i gwrt cosbi Rangers clywyd bloedd mewn acen Glasgow berffaith, "Leave ra ba". Yn unol â'r gorchymyn gadawodd yr amddiffyniad y bêl ac aeth yn syth i Andy McCeachen, a rwydodd i sicrhau'r gwpan i Hibernian, Yn ôl Tom, Robert oedd wedi perffeithio ei acen Glasgow.

Ymunodd â chlwb Middlesborough yn 1903 gan chwarae 66 o gemau a sgorio 13 o weithiau, Yn ôl Mike McGeary, Swyddog y Wasg, Robert oedd chwaraewr cyntaf y clwb i ennill cap rhyngwladol. Bu'n gapten yn ei dymor olaf yno, sef 1905-06.

Symudodd i Lundain ac ymuno a Chelsea, flwyddyn ar ôl ffurfio'r clwb. Yn anffodus, cafodd anaf go ddrwg mewn gêm gyfeillgar cyn dechrau'r tymor a'r cyngor meddygol a gafodd oedd rhoi'r gorau i chwarae. Ni chwaraeodd unrhyw gêm gystadleuol i Chelsea. Dywedodd Mr Glanville, hanesydd y clwb, na wyddai fawr ddim o'i hanes wedyn, ar wahân iddo fod yn werthwr nwyddau swyddfa a busnes yn Llundain am gyfnod.

Fe'i dewiswyd i chwarae dros Gymru naw gwaith, gan rwydo ddwywaith. Er bod y tîm yn cynnwys chwaraewyr enwog fel Roose, y golwr, a Billy Meredith yn gapten, nid oedd y tymhorau yn rhai llwyddiannus i Gymru. Roedd y clybiau'n gyndyn iawn i ryddhau chwaraewyr ar gyfer gemau rhyngwladol yn y cyfnod. Enillodd Robert ei gap cyntaf tra roedd yn Hobernian yn 1899, pan gollwyd o bedair g i ddim yn erbyn Lloegr. Chwaraeoedd gemau yn nhymhorau 1903 i 1905 a chollwyd chwech o'r naw gêm, gyda dwy gêm gyfartal (yn y gemau hynny y sgoriodd Atherton ei goliau). Ond fe gurwyd Lloegr ar y Cae Ras yn 1904 gyda sgôr o 2 – 0. Chwaraewyd gêm yn erbyn Iwerddon yn 1904 ar Gae Criced Bangor, a oedd bryd hynny yn Ffordd Farrar, cyn i Fangor ddechrau chwarae pêl droed yno.

Ym 1911 roedd Robert yn rheolwr y Market Hotel, Hartlepool gyda'i wraig a'i dri phlentyn. Gwesty enwog yn ei ddydd, gyda chysylltiadau â byd pêl droed yr ardal. Symudodd yn ôl i'r Alban gan ymuno â'r Llynges Fasnachol fel stiward. Dyna symudiad a arweiniodd at ddiwedd trist, pan gafodd y llong, a Robert arni, ei chwythu i fyny ger St Malo yn Hydref 1917 ac yntau yn 41 mlwydd oed.

Ffaith ddiddorol i ni yw nad anghofiodd am Fethesda er iddo adael yn ifanc iawn. Dengys ffurflenni swyddogol a welais, gan gynnwys ffurflenni arwyddo i wahano glybiau a ffurflenni cyfrifiad, mai Bethesda a nodir ganddo fel man ei eni.

**Dilwyn Pritchard.**

## CHWILAIR GORFFENNAF 2013
## Caneuon Cymraeg

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | G | E | E | C | E | F | F | Y | L | B | A | C | H | A | W | F | R | H | R |
| I | E | J | L | C | Y | S | B | R | Y | D | Y | N | O | S | M | B | O | V | B |
| H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W | W | H |
| M | U | N | Y | R | E | D | A | R | A | N | A | C | L | E | F | U | N | A | C |
| I | **A** | Z | M | X | V | A | D | D | D | N | A | P | A | U | Q | U | D | S | O |
| W | **R** | F | R | P | Y | Q | Z | A | G | R | H | C | U | M | W | N | Y | O | Y |
| E | **H** | R | I | A | S | Z | U | T | W | F | D | X | U | P | W | R | R | H | C |
| L | **Y** | Q | H | W | E | H | O | Y | E | D | E | G | E | O | M | H | H | E | P |
| A | **D** | T | T | C | B | B | C | U | U | J | N | P | L | T | M | I | O | V | V |
| I | **Y** | D | C | B | B | F | R | F | O | G | J | Y | V | I | I | R | R | R | X |
| S | **N** | I | M | H | T | T | O | S | K | O | P | W | M | R | C | M | N | K | C |
| J | **O** | B | O | R | C | X | V | R | Y | H | S | T | M | A | R | E | F | Y | J |
| A | **S** | D | Z | H | B | C | W | O | S | C | R | A | I | X | M | N | I | L | X |
| C | L | A | W | R | A | R | L | A | N | Y | M | O | R | J | J | W | M | B | W |
| Y | T | E | X | M | D | X | K | F | U | P | C | Q | Y | O | I | L | C | F | E |
| D | R | A | D | E | R | Y | N | P | U | R | Z | Q | R | O | C | T | D | A | G |
| O | R | E | C | N | I | D | O | H | C | A | B | N | E | G | H | C | A | B | D |
| W | S | O | E | S | G | A | F | R | E | T | O | L | Z | E | B | E | A | J | K |
| D | E | R | Y | N | Y | B | W | N | O | R | B | A | L | A | J | C | L | N | L |
| R | V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | W | J | J | Q | U | L | F | S | V |

Y mis yma mae enw deuddeg o GANEUON CYMRAEG i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddill. (Mae LL, CH, DD, TH), ayb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Wel, Wel! Dim ond tri wedi cael yr atebion cywir y mis diwethaf. Da iawn chi! Gobeithio fod y testun yma yn haws. Dyma atebion Mehefin. Ar dy Feic, C'monmidfield, Credaf, Dan Sylw, Fo a Fe, Gwyn a'i Fyd, Heno, Minafon, Rownd a Rownd, Ryan a Ronnie, Siôn a Siân, Y Dydd. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir. Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Marilyn Jones, Glanffrydlas. Enillydd Mehefin oedd Marilyn Jones, 1 Glanffrydlas, Bethesda.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW. Erbyn MEDI 4 . Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

**© Dr J. Elwyn Hughes**



**Dyddiadur Digwyddiadau yn Nyffryn Ogwen rhwng 1841 a 1845**

**1841**
• Ionawr 1841: Trwy drwydded frenhinol, Edward Gordon Douglas (a ddaeth yn Arglwydd Penrhyn Llandegai) yn ychwanegu'r enw 'Pennant' at ei enw.
• Sefydlu Cyfrinfa gyntaf Y Gwir Iforiaid (clwb cleifion) ym Methesda.

**1842**
• Adeiladu Ysbyty Chwarel y Penrhyn ym Mryn-llwyd, ar draul Edward Gordon Douglas Pennant. Meddai Hugh Derfel: 'Yma y dygir y claf a chaiff bob ymgeledd a 3s 6c i fyned adref i'w wraig. Pan fo gŵr farw, caiff ei wraig £5 at ei gladdu, ac os y wraig a fydd farw, caiff y gŵr £1 at ei chladdu. Os lleddir gŵr yn y Gloddfa, caiff ei wraig £5 o'r Penrhyn bob blwyddyn hyd ddiwedd ei hoes os pery yn weddw'.
• 28/09/1842: Geni William John Parry yn 58 Stryd Fawr, Bethesda. (Newidiwyd rhifau'r tai a'r siopau yn 1904). Mab John Parry, chwarelwr, ac Elizabeth. Symudodd y teulu i Rif 52 yn 1846 – hen Swyddfa Bost Bethesda. Awdur nifer o gyfrolau: Chwareli a Chwarelwyr; The Penrhyn Lockout; Cry of the People; Cofiant Tanymarian; Cofiant Hwfa Môn; Cyfrol Jiwbili Capel Bethesda, etc. Arweinydd Llafur; gwleidydd; Rhyddfrydwr; aelod o Gyngor cyntaf Sir Gaernarfon yn 1889; un o sefydlwyr Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru yn 1874, ei Ysgrifennydd cyntaf a'i Lywydd am flynyddoedd. Bu farw ym Methesda yn 1927.
• 07/10/1842: Agor Capel Jerusalem. Cafwyd y tir ar les gan yr Arglwydd Penrhyn. 'Hen gors wlyb, anhygyrch, oedd y lle i ddechrau, a bu ugeiniau o aelodau yn gweithio a amgylch y lle am ddim i'w arloesi a'i sychu'.


**1843**
• Ychwanegu rhes arall o dai at Dai'r Mynydd, Mynydd Llandegai, gan y chwarelwyr eu hunain, ac wedyn eto yn 1862.
• 27/06/1843: Gosod carreg sylfaen Eglwys newydd Llanllechid.
• Adeiladu Capel Bethel, Tyn-y-maes (MC).

**1844 (tua)**
• Codi Pont y Ceunant dros Afon Ogwen. Penderfynasai'r Arglwydd Penrhyn ddod â thomennydd Chwarel y Penrhyn i gyfeiriad Nant Ffrancon a golygai hynny gladdu rhan o hen ffordd 1792/93. Cododd Bont y Ceunant i gysylltu Maes Caradog, etc. â'r ffordd bost (yr A5)

**1844**
• Codi Ysgol Llandygái, ar dir a roddwyd yn rhodd gan Mrs Edward Gordon Douglas Pennant.

I'w barhau

# Croesair Gorffennaf/Awst 2013



**AR DRAWS**

1 Maent oll yn lle y diafol (6)
5 Dannedd olwyn, ond nid i gnoi bwyd môr (5)
9 Dweud wrth y gŵr da am symud yn y dŵr am fod eraill wedi gwneud (9)
10 Rydw i wedi drysu fy oed cyn heddiw (3)
11 Marchog o Sais mewn rhanbarth o Gymru (3)
12 Lleoliad llwytho llongau llechi Llanberis! (9)
14 Y mwyaf ohonynt yw'r gorila (3)
16 Cyfoeth diarhebol, er nad yw'n well na dysg (5)
18 Talfyriad un o fisoedd y flwyddyn (3)
19 Rhoi'r llaeth ynghanol y coed i'w wneud yn farwol iawn (9)
21 Mae un i'r frenhines a'r eryr a'r ffynnon yng Nghaernarfon (3)
22 Pan elo yn feddw a'i droed ar hwn mi gaiff sglefr (3)
23 Dyma'r rheswm na wnewch chi byth gyrraedd (2-3-4)
25 "Ac yntau yn chwilio'r nant Fel ----- o dro i dro" 'Y Sipsiwn' – Eifion Wyn
26 Amser golchi dillad fy nain (3,3)

**I LAWR**

2 Gweithio i blaid wleidyddol neu i rywun a garwch (5)
3 Criw o soldiwrs (2,5)
4 Yr un Ben Aur (3)
5 Tynnwch hanner cant o'r teclyn dryslyd ac fe gewch rywbeth i'w roi yn eich ceg (5)
6 Tref hynafol gastellog ar lan Afon Gwendraeth (7)
7 Man newid trên yn aml wrth deithio o ogledd Cymru i wahanol rannau o Loegr (7,5)
8 Creta yw'r fwyaf o dros chwe mil ohonynt (7,5)
13 Ffŵl gwirion (5)
15 Heb fod yn glir na dealladwy (7)
17 Dim diod i bawb, ond i ddeg chwil y mae (7)
20 Yn dilyn (5)
21 Mynd at fur y castell a dychryn a brawychu'r gelyn (5)
24 Un i achub o le gwlyb a drwg yn Lloegr (3)

**ATEBION CROESAIR MAI**

**AR DRAWS** 1 Sant, 4 Dioddef, 7 Ulw, 9 Cwyr, 10 Gwisgoedd, 11 Nwy, 12 Miri, 13 Digonant, 16 Hydref amryliw, 19 Diorseddu, 23 Truth, 24 Noa, 25 Pendroni, 26 Farn, 27 OBE, 28 Mostyn, 29 Llond

**I LAWR** 2 Arweinyddiaeth, 3 Turniwr, 4 Dwgyd, 5 Oriog, 6 Esgyn, 8 Meinciau pren, 14 Iraidd,15 Oer, 17 Eos, 18 Ystafell, 20 Radio, 21 E-bost, 22 Union

"Diawl y Wasg" yw'r ymadrodd a ddefnyddir yn aml pan fydd gwallau anesboniadwy yn ymddangos mewn print. A dyna ddigwyddodd i'r Croesair y mis diwethaf. Ond nid fi oedd y diafol y tro hwn ! Cyflwynwyd y cliwiau a'r grid cyfatebol cywir i'w hargraffu, ond yn anffodus nid hynny a ymddangosodd yn y papur. Ymddiheuraf i'r ffyddloniaid ohonoch, gan obeithio na ddigwydd eto.

Mae'n amlwg iawn fod un cliw wedi achosi cryn benbleth i lawer ohonoch ym mis Mai, sef "Mae nhw'n cael neu yn rhoi digon". Cafwyd 'digonini', 'digonnedd', a 'digoninw', ond yr ateb cywir wrth gwrs oedd 'digonant'. Un camgymeriad arall oedd cynnig 'true' yn hytrach na 'truth', sef y gair Cymraeg am 'rhibidirês diystyr'.

Y cynnig arobryn y tro hwn yw eiddo Heulwen Evans, Tegfryn, 30 Bro Rhiwen, Rhiwlas, Bangor. Llongyfarchiadau mawr i chi, a phob clod i'r canlynol am atebion hollol gywir hefyd : Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Rosemary Williams, Sara a Gareth Oliver, Tregarth; Dilys Parry, Rhiwlas; Ann Ifans, Penisarwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch.

Mwynhewch wyliau'r haf, a chawn gwrdd eto ym Medi.

Atebion erbyn dydd Mercher, 4 Medi i 'Croesair Gorffennaf/Awst', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

## Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod y Gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ar nos Fawrth, 25 Mehefin, gyda'r Dr. Paul Rowlinson yn y gadair.

Adroddwyd bod ymgeiswyr ar gyfer Senedd Ewrop wedi eu dewis bellach. Bydd y gwaith o ddewis yr Ymgeisydd Cynulliad yn lle Alun Ffred yn Etholiad 2016 yn mynd rhagddo ynghyd â hystingiadau dewis ymgeisydd i'r Senedd yn Llundain yn 2015, gyda'r unig ymgeisydd Hywel Williams yr A.S. presennol.

Daeth, hefyd, y newyddion am Ieuan Wyn Jones yn gadael ei swydd fel A.C. Môn ac y byddai'r broses o ddewis ymgeisydd ar gyfer is-etholiad yn digwydd yn fuan iawn.

Cafwyd diwrnod da iawn yn y Sioe Amaethyddol a thalodd Alun Ffred a Hywel Williams ymweliad ar ddiwrnod bendigedig o braf. Diolchwyd i bawb, ac yn arbennig i Dafydd Meurig a Dafydd Owen.

Y nos Iau yn dilyn ein pwyllgor hysbysodd Dafydd Meurig, y Cynghorydd Sir dros ardal Talybont, y byddai trigolion yr ardal yn cael y cyfle i fynychu Cyfarfod Cyhoeddus dan gadeiryddiaeth Alun Ffred, AC, i drafod a cheisio cael atebion ynglŷn â'r llifogydd a drawodd yr ardal ym mis Tachwedd.

Dywedodd Dafydd Owen bod rhan o Dregarth wedi cael trafferthion gyda band eang yn ddiweddar a'i fod wedi bod yn ddiffygiol am beth amser.

Adroddodd y Cynghorydd Ann Williams bod Alun Ffred A.C. wedi cynnal cymhorthfa yn Neuadd Ogwen a bod llawer o gwyno ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud ar dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Gwnaeth Ceinwen Evans y sylw bod Cyhoeddi i fod ar hanes y Blaid a bod angen defnydd a lluniau gan aelodau sy'n dyddio cyn 1997.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mehefin aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod o bwyllgor gwaith Plaid Lafur Arfon yng Nghaernarfon i ddechrau paratoi ar gyfer etholiad San Steffan yn 2015 (e.e. dosbarthu taflenni mewn rhan o Ddyffryn Ogwen bythefnos wedyn) ac i ymdrin â materion mewnol y Blaid Lafur.

Yna, ganol y mis, cynhaliwyd hystingau mewn etholaethau ar gyfer dewis merch i fod yn ail ar y rhestr o ymgeiswyr y Blaid Lafur yn etholiad Ewrop 2014 – Derek Vaughan, ASE presennol y Blaid Lafur fydd yn gyntaf ar y rhestr. Mae pob aelod o'r Blaid Lafur yn cael pleidleisio trwy'r post neu ar ebost.

Wedyn, ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen. Yn ogystal ag ailethol swyddogion y gangen ac enwebu ar gyfer cyfarfod blynyddol Pliad Lafur Arfon, gwnaed paratoadau ar gyfer y bore coffi blynyddol ar 6 Gorffennaf ym Neuadd Ogwen.


YSGOL YRRU
DerfeL
07982 076 455
01248 605 325
derfelowen@sky.com Haulfryn - Llanllechid



Contractwyr Trydanol

**Jones & Whitehead Cyf**


Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Y BWTHYN TÊ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS) YN YSTOD Y 18cd. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFEYDD GWYCH DROS LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill
(01286)872606 www.ceunant.co.uk steven@ceunant.co.uk




**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**alunffred.jones@cymru.gov.uk**



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**

## OWEN'S TREGARTH
**Cludiant Preifat a Bws Mini**



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
**01248 602260**
**07761619475**



**www.owenswales.co.uk**

---

**JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.**
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
**01248 601754**
07770 568743 (symudol)
CITB

---

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
**CONTRACTWYR TOI**
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

---

## Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni

DEWCH I WELD EICH CYFREITHIWR LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

☎ BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

**Cyfreithwyr**
Y CYNGOR CYNTAF AM DDIM
EWYLLYSIAU A PHROFIANT
SYMUD TŶ

---

## MODURDY FFRYDLAS
Perchennog
**A. Ll. Williams**
Profion M.O.T.
**Stryd Fawr, Bethesda**
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

---

**Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**
**Am gymorth:**
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

---

**BARBWR OGWEN**
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

---

**Hysbysebwch yn y Llais**
**600853**

---

**Malinda Hayward**
**(Gwniadwraig)**
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.
Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -
Ffoniwch
**01248 601164**

---

## L. Sturrs a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
## ADEILADWYR
**Hen Iard Stesion,**
**Ffordd y Stesion, Bethesda**
**Ffôn: 600953**
**Ffacs: 602571**
**lsturrs@googlemail.com**


---

**SAMARIAID**
Mae
**Llinell Gymraeg**
**0300 123 3011**
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

---

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

---



# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Llwyddiant Athletau**



**Aled Owisanka Roberts**

Llongyfarchiadau i Aled Owsianka Roberts a ddaeth yn fuddugol yn y naid uchel yng nghystadleuaeth Athletau Ysgolion Eryri. Bydd Aled yn cynrychioli tîm Eryri ym Mhencampwriaeth Athletau Cymru ar 6 Gorffennaf yng Nghaerdydd.

**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i Matthew Williams ac Osian Glynne Jones ar gael eu dewis i dîm criced dan 15 Eryri ac i Mathew Buchanan, Siôn Davies a Ben Williams ar gael eu dewis i'r tîm dan 13. Mae Mathew Buchanan hefyd wedi ennill cap dros Gymru eto eleni, dymuniadau gorau iddo yn ystod y gemau dros yr Haf.

Llwyddodd Morgan Owen ac Ashley Rowlands i gael lle yng ngharfan rygbi dan 16 RGC (Rygbi Gogledd Cymru) ar gyfer y tymor nesaf. Mae Osian Glynne Jones hefyd wedi ei ddewis i'r garfan ddatblygu, bachgen amryddawn mae'n amlwg. Fe fydd gemau yn erbyn timau o ranbarthau'r Gweilch, Gleision a Scarlets yn ystod y tymor. Gallwch ddilyn eu hynt a chael manylion y gemau ar wefan www.nwru.co.uk

**Diwrnod Mabolgampau**



Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol eleni ar gae yr ysgol ar Fehefin 5ed a chafwyd diwrnod da o gystadlu yn y tywydd braf. Tryfan oedd y tŷ buddugol eleni. Aeth y disgyblion buddugol ymlaen i gystadlu yng nghystadleuaeth athletau Arfon yn ddiweddarach.



Llongyfarchiadau i griw brwdfrydig o flwyddyn 10 a benderfynodd godi arian ar ddiwrnod mabolgampau'r ysgol at achosion da.

Casglwyd £300 i gyd, drwy werthu danteithion, diodydd oer, creision, teisennau bach cartref a photiau bach hufen iâ Môn ar Lwy.

Bydd siec o £150 yn mynd at Ward Alaw drwy law Eleanor Jones a'r £150 arall yn mynd tuag at ymgyrch 'Race for Life', y bu Lynne Jones, athrawes Saesneg a Sarah Freeman, disgybl ym mlwyddyn 9 yn ei rhedeg.

Cafwyd llawer iawn o hwyl a thynnu coes drwy gasglu'r arian ond datblygwyd llawer o sgiliau byd gwaith yn ogystal ar y diwrnod.

Mawr ddiolch i bawb am eu hymdrechion.

**Taith Wyddonol Blwyddyn 9**
Ar 19 Mehefin, trefnwyd gan fyfyrwyr Prifysgol Bangor i ddisgyblion blwyddyn 9 fynd ar daith wyddonol i Abergwyngregyn a Moelyci. Yn Abergwyngregyn mesurodd y plant faint o amser a gymerwyd i lenwi bwced o ddŵr o'r afon, yna gyda'r canlyniadau roedd y disgyblion yn gallu cyfrifo faint o egni oedd yn yr afon, a sawl bwlb trydan y gellid eu goleuo gyda'r egni yma. Wrth gerdded i fyny at a rhaeadr casglodd y disgyblion wahanol ddail o'r coed a dysgu sut i adnabod ac enwi'r dail. Yn Moelyci casglwyd samplau o ddŵr er mwyn profi pH y dŵr ac archwilio pa organebau oedd yn byw ynddo. Drwy wneud hyn roeddynt yn gallu asesu lefel llygredd y dŵr. Hefyd cawsant daith o amgylch yr ardal er mwyn darganfod y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd. Yna ar yr 20fed aeth blwyddyn 9 i labordai'r Brifysgol i wneud mwy o waith ar y dail a gasglwyd yn Abergwyngregyn, a defnyddiodd disgyblion Moelyci'r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y dydd i greu ymgyrch i achub dyfodol Moelyci.

**Taith Llundain**
Ar y 24 a 25 Mehefin teithiodd criw o fyfyrwyr BAC blwyddyn 12 i Lundain. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod, cawsant gyfle i gael blas iawn ar Lundain gan weld Newid y Gwarchodlu, Palas Buckingham, Big Ben, London Eye, Stryd Downing a Sgwâr Trafalgar. Roedd 'China Town' a Sgwâr Leicester yn ardaloedd bywiog a thrawiadol a'r Amgueddfa Hanes yn ddiddorol dros ben. Cafodd y criw eu tywys o amgylch San Steffan a chyfle i gael sgwrs arbennig gyda Hywel Williams A.S. a gwrando ar ran o ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi. Wedi diwrnod o grwydro ar droed ac ar drenau tanddaearol, bu cyfle i ymlacio yn y theatr gyda'r hwyr i wylio'r sioe gerdd 'We Will Rock You' cyn noson dda o gwsg yng ngwesty'r Marriott.

**Ymweliad Blwyddyn 6**
Bu'r 70 disgybl sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi ar ymweliad undydd yma ar 4 Gorffennaf. Cawsant gyfle i flasu gwersi Cymraeg, Technoleg ac Addysg Gorfforol a chael cyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen i'w croesawu!

**Gweithgaredd Pontio Blwyddyn 6**
Daeth disgyblion o flwyddyn 6 ysgolion cynradd ein dalgylch i Adran Wyddoniaeth yr ysgol yn ddiweddar i fwynhau bore o weithgareddau gwyddonol.

Roedd yr adran wedi trefnu gweithgareddau 'CSI Bethesda'! Roedd rhywun wedi 'benthyg' y taflunydd o'r labordy ac roedd y person wedi gadael tystiolaeth ar ei ôl.

Rôl y disgyblion oedd casglu ac edrych ar y dystiolaeth a'i ddefnyddio i geisio penderfynu pa un o'r tri oedd y troseddwr. Edrychodd y disgyblion ar samplau o gemegau oddi ar waelod esgidiau, olion bysedd a thraed a'r inc a ddefnyddiwyd ar y nodyn a oedd wedi cael ei adael gan y troseddwr.

Ar ôl mynd yn ôl i'w hysgolion, ysgrifennodd y disgyblion erthygl bapur newydd ar eu darganfyddiadau ac rydym yn edrych ymlaen at ddarllen y rhain pan fydd y disgyblion yn cychwyn ym mis Medi.

## Ysgol Tregarth

Mabolgampau Urdd a Dalgylch
Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran ym Mabolgampau'r Urdd, a Mabolgampau'r dalgylch. Cafodd nifer o ddisgyblon lwyddiant, a phawb wedi mwynhau cymryd rhan! Llongyfarchiadau mawr i Dyfan Llyr Eames a fu'n llwyddiannus yn y cylch am Redeg. Aeth i'r Mabolgampau Sir i gymryd rhan. Da iawn chdi Dyfan!

Blwyddyn 6
Pob hwyl i ddisgyblion hynaf yr ysgol y flwyddyn nesaf yn eu hysgolion uwchradd newydd. Mae'r ysgol yn falch iawn o'r cynnydd a'r ymdrech y mae'r holl disgyblion wedi ei wneud drwy eu cyfnod yn yr ysgol. Pob dymuniad da i chwi yn eich ysgol newydd.

Cafodd Dosbarth Ffrydlas ymweliad gwych gyda Speke Hall, ac yna ymlaen i Synagog yn Lerpwl. Roedd yn gyfle arbennig i'r plant gael profiad o gartref Tuduraidd a rhai'n gwisgo fel plant o'r cyfnod.

Cawsom i gyd gyfle i greu pomander ac roedd yr arogl ar y bws ar y ffordd adre'n anhygoel! Ymlaen â ni wedyn i synagog yn Childwall. Roedd yn wych gweld ymateb y plant wrth weld yr holl bethau yr oedden nhw wedi ddysgu amdanynt yn y dosbarth. Cafodd y plant hefyd eu canmol am eu hymddygiad a'u diddordeb ym mhopeth. Diwrnod gwych.




**Siapiau Sŵn**
Bu ugain o blant blwyddyn 4 yn ffodus iawn o gael cydweithio gyda'r cerddor Manon Llwyd am gyfnod o bedwar diwrnod. Yn ystod y cyfnod, cawsant y cyfle i gynllunio symbyliad, a chyfansoddi seinlun i gyd-fynd â'r symbyliad. Buont yn brysur yn cyfansoddi geiriau ac alawon, ac yn creu effeithiau sain pwrpasol. Dros yr wythnosau dilynol, buont yn ymarfer ac yn mireinio eu perfformiadau ar gyfer perfformiad mawreddog yn Neuadd Pritchard Jones ym Mangor. Cafwyd perfformiad arbennig y diwrnod hwnnw, a phawb wedi mwynhau'r profiad yn arw. Cafwyd hefyd gyfle i glywed perfformiadau ysgolion eraill a oedd yn rhan o'r prosiect. Bu'r profiad yn un bythgofiadwy i'r disgyblion.

**Ymddeoliad Mrs Parry**
Carai'r llywodraethwyr, rhieni, holl staff a phlant yr ysgol ddiolch o waelod calon i Mrs Meriel Parry am flynyddoedd o wasanaeth di-flino i'r ysgol fel pennaeth ac hefyd i ysgolion y dalgylch. Carem ddymuno ymddeoliad hapus a dedwydd i Mrs Parry. Byddwn yn gweld colli eich cwmni a'ch cyfeillgarwch.

## Ysgol Abercaseg

**Llwyddiant yn y sioe**
Unwaith eto'r flwyddyn yma bu'r disgyblion wrthi'n brysur yn arlunio a chreu gwaith celf ar gyfer Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Nid yn ofer eu hymdrechion gan i nifer fawr ddod i'r brig mewn amryw o gystadlaethau. Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n llwyddiannus ac i griw y Clwb Cinio a Phrynhawn hefyd am ddod yn gyntaf!



**Dyma lun o rai o'r plant a fu'n fuddugol!**

**Llwyddiant Ysgubol Her y Sgwad Syniadau**
Efallai bod yna ambell un ohonoch yn cofio darllen yn y rhifyn diwethaf o Lais Ogwan am yr her yr oedd y Sgwad Syniadau wedi ei osod ar gyfer disgyblion yr ysgol o geisio teithio ar y Llwybr Antur yn ddi stop am bymtheg munud!! Tipyn o gamp i hyd yn oed y rhai mwyaf ffit yn eu plith. Llwyddodd y plant i brofi eu bod yn gallu goresgyn unrhyw her yn llwyddiannus gan gasglu £800. Mae hanner yr arian wedi ei wario ar brynu offer ffitrwydd o ddewis y disgyblion i'w defnyddio yn ystod yr amseroedd chwarae a'r hanner arall wedi ei gyflwyno i ward Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon a oedd yn gofalu am daid Joshua, Grace a Megan a nain Elen.



**Dyma lun o Megan, Josh, Grace ac Elen yn cyflwyno'r siec i staff Ysbyty Eryri.**

**Ffair Haf**
Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang yn ddiweddar pan gynhaliwyd Ffair Haf yr ysgol. Roedd yna bob math o nwyddau i'w prynu megis cacennau a theganau yn ogystal â nwyddau a wnaethpwyd gan y plant eu hunain. Heb amheuaeth y ddwy stondin brysuraf oedd yr un peintio wynebau a'r stondin datŵs.

Diolch i 'Gyfeillion Ysgol Abercaseg' am drefnu'r Ffair, i Tesco Bethesda am y rhodd hael iawn ac i rieni a ffrindiau'r ysgol am droi allan i gefnogi'r ysgol ar noson mor stormus. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

**CD Ysgol Abercaseg**
Mae cynnwrf mawr yn yr ysgol gan fod y gân y mae'r disgyblion wedi bod yn ei chyd-gyfansoddi gyda Lisa Jên yn sôn am yr ysgol, pentref Bethesda a hoffterau'r plant wedi ei chyhoeddi ar CD! Mae pob un o ddisgybl yr ysgol yn canu'n swynol arni. Cofiwch, mae'n bosibl i unrhyw un ohonoch brynu copi, dim ond i chwi gysylltu a'r ysgol. Mae'n werth ei chael ac yn fargen am £2.00.

**Gweithdai Drama Cwmni'r Frân Wen**
Daeth Cwmni'r Frân Wen i'r ysgol yn ddiweddar i gynnal gweithdai drama gyda disgyblion y blynyddoedd derbyn ac un a dau. Bu i bawb fwynhau'r profiad a phwy a ŵyr, efallai bod actorion y dyfodol wedi eu creu ar y diwrnod!

**Ffarwelio**
Ar ddiwedd y tymor, byddwn yn ffarwelio â Mai Williams. Mae Mai wedi bod yn gweithio fel cymhorthydd yn yr ysgol ers sawl blwyddyn bellach ac wedi penderfynu mynd yn ôl i'r coleg i ddilyn cwrs ymarfer dysgu. Pob lwc i ti gyda'r cwrs Mai a diolch i ti am dy wasanaeth gwerthfawr yn yr ysgol.

**Gwyliau Hapus**
Mae blwyddyn ysgol arall wedi dod i ben! Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ôl y gwyliau Haf ar ddydd Mawrth, 3 Medi. Dymuniadau gorau i blant Blwyddyn 2 sy'n symud i Ysgol Pen-y-bryn a gwyliau dedwydd a diogel i bawb!

## Pwy?



**Ydach chi'n gwybod pwy ydi'r hogyn ifanc golygus sydd yn y Llun?**

**Cliwiau: Mae'n dal i fyw yn Nyffryn Ogwen – ac wedi dathlu pen-blwydd arbennig!**

## Ysgol Rhiwlas

**Tawelwch noddedig**
Llongyfarchiadau fil i Osian o'r Cyfnod Sylfaen a Megan Wyn o'r Adran Iau – y ddau yma gododd fwyaf o arian yn ystod y tawelwch noddedig ond diolch i bawb am eu hymdrechion – codwyd dros £900 i goffrau'r ysgol.

**Prynhawniau agored Meithrin**
Cynhaliwyd tri prynhawn agored ar gyfer plant bach newydd mis Medi a'u rhieni. Diolch i Stell Farrar o Brifysgol Bangor am ei hamser yn siarad hefo'r rhieni am fanteision dysgu'r Gymraeg. Gobeithiwn byddwch yn ymgartrefu yn gyflym ym mis Medi blantos!

**Diwrnod tywysogesau a marchogion**



I gyd-fynd â'u gwaith ar stori Hans Christian Andersen Y Dywysoges a'r Bysen, cafodd plant y Cyfnod Sylfaen ddiwrnod tywysogesau a marchogion. Roedd pawb yn edrych yn wych yn eu gwisgoedd a hawdd iawn oedd y gwaith ysgrifennu dyddiadur tywysog neu march wedyn, wedi cael y profiad o wisgo mor grand am y diwrnod!

**Ffarwel Jenny**
Bu Jenny draw yn dosbarthu rubanau a chwpanau yn dilyn Garddwest blynyddol Eglwys Cedol – da iawn i Osian, Keira, Hazel, Chloe, Martha a Sophie o adran y Babanod ac i Megan Wyn, Gwen, Erin a Jenny o'r adran Iau. Trist oedd clywed fod Jenny yn gadael Cedol. Hoffai staff a disgyblion Ysgol Rhiwlas ddymuno pob dymuniad da i Jenny– mae hi wedi bod yn ffrind da i ysgol Rhiwlas ac rydym wedi dysgu llawer ganddi. Gobeithio wnewch chi ymgartrefu yn gyflym yn Manceinion Jenny.

**Mabolgampau'r Urdd**



Braf oedd gweld brwdfrydedd y plant yn y mabolgampau cylch Bangor Ogwen yn Nhreborth yn ddiweddar. Cafodd y ddau dim ras gyfnewid cymysg y fraint o gystadlu ym Mabolgampau'r Rhanbarth yr wythnos wedyn a chyffrous iawn fydd cael cystadlu unwaith eto ym Mabolgampau Talaith y Gogledd ym Mharc Eirias, Bae Colwyn! Diolch yn fawr iawn i Mrs Diane Price o fferm wyliau Tros y Waen am ei charedigrwydd a alluogodd y plant i gael gwisg athletau newydd. Diolch hefyd i Ysgol Dyffryn Ogwen am gael defnyddio eu cyfleusterau I ymarfer ac yn enwedig i griw Addysg Gorfforol blwyddyn 10 am eu hyfforddiant!

**Caiacio**
Bu plant blynyddoedd 5 a 6 yn caiacio ar y Fenai o dan arweiniad Rachel George, mam Erin. Gwelwyd welliant mawr yn eu sgiliau a'u hyder dros gyfnod o dri sesiwn ac roedd y plant wrth eu bodd yn cael anturio.

**Plas Menai**
Symudwch draw 007, mae plant yr adran Iau yn gwybod dipyn am speedboats! Cafodd blynyddoedd 4, 5 a 6 fynd ar y RIB ar y Fenai a dysgu tipyn am y creaduriaid sy'n byw ynddi eto eleni fel rhan o waith Ysgol y Mor. Profiad bythgofiadwy a digon o hwyl!
Andrew Settatree

Gwasanaeth am ailgylchu gafodd y plant gan Mr Settatree – daeth a sbwriel i fewn i'r plant didoli . Da yw plant ysgol Rhiwlas am ailgylchu beth bynnag gan ein bod yn Ysgol iach ac yn Ysgol werdd ond mynd yn angof mae'r pethau 'ma weithiau felly diolch i Mr Settatree am ein atgoffa o'r neges pwysig yma. Tybed os ydych chi'n rhai da am ailgylchu?

**Mabolgampau Ysgolion Bach**
Cafwyd amser gwych gan yr adran Iau yn Nhreborth yn cystadlu yn erbyn ysgolion bach yr ardal. Llwyddodd Ysgol Rhiwlas i ddod yn drydydd allan o chwech ac roedd y plant yn hynod o falch o'u llwyddiant. Da iawn chi a diolch i Ysgol Felinheli am drefnu eto eleni.

**Arlunwyr preswyl**
Daeth arlunwyr preswyl i'r ysgol yn ddiweddar gan sicrhau fod bob plentyn o'r ysgol wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r prosiect. Gweithiodd pawb yn ddedwydd ac rydym wrth ein bodd hefo'r canlyniadau – hyderwn bydd trigolion o'r pentref yn mwynhau'r gwaith gymaint a wnaeth y plant fwynhau ei gynhyrchu…!

## Ysgol Bodfeurig

**Ymweld â'r Brifysgol**
Yn ddiweddar mae dosbarth blwyddyn 4,5 a 6 Ysgol Bodfeurig wedi ymweld â'r Brifysgol ym Mangor. Cawsant gyfle i gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau, ar ôl gwrando ar straeon difyr yn yr her lyfrgell.
Roedd y Brifysgol wedi darparu byrddau llawn arteffactau diddorol am rannau o'r corff ac am greaduriaid y môr.

**Cymru Cŵl**
Fel rhan o'n gwaith 'Siarter Iaith' fe fu'r ysgol yn dathlu wythnos Cymru Cŵl. Yn ystod yr wythnos yma roedd y disgyblion yn cael cyfle i weithio ar amrywiaeth o weithgareddau oedd yn ymwneud â Chymru.



Roedd y gweithgareddau yma yn ehangu ar eu Cymreictod ac yn cyd-fynd â'r Siarter Iaith sydd yn rhan o strategaeth yr ysgol. Mae pob dosbarth yn gweithredu ar gynllun o'r enw 'Camu Tua'r Copa'. Mae'r disgyblion yn gweithio gyda'r athrawon a staff yr ysgol er mwyn symud ymlaen ac anelu tua'r copa!

**Dyma Gwydion yn gweithio ar ei boster 'Cymru Cŵl'.**

**Ymweliad Mr Martin Daws**
Daeth Mr Daws i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda blynyddoedd 4,5,6. Fe fu'r dosbarth wrthi yn barddoni a rapio gyda Mr Daws. Roedd y dosbarth wedi gwirioni cael creu darn o waith o'r newydd! Roedd Martin wrth ei fodd cael gweithio gyda'r ysgol gan fod ei blant ei hun yn yr ysgol ar hyn o bryd. Diolch yn fawr am ei frwdfrydedd a'i waith caled.

**Wythnos Bioamrywiaeth**



Yn ystod y tywydd braf yn ddiweddar cafodd blynyddoedd 2 - 6 ymweld â'r goedwig ym Mharc Meurig er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Cafodd y disgyblion gyfle i edrych ar drychfilod yn eu cynefin ynghyd â chreu bioamrywiaeth eu hunain. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael archwilio yn y goedwig a darganfod creaduriaid bychain!

**Mabolgampau'r Urdd**
Yn ddiweddar cafodd aelodau'r Urdd gyfle i gystadlu ym mabolgampau'r Urdd ar drac Treborth ym Mangor. Roedd y plant wedi cyffroi cael cystadlu a chynrychioli'r ysgol mewn amrywiaeth o

gystadlaethau. Cafodd Obie o flwyddyn pedwar llwyddiant wrth gystadlu, fe enillodd y wobr gyntaf yn taflu pêl ac yr ail wobr yn y gystadleuaeth naid hir. Mae Obie eisoes wedi cystadlu unwaith eto ac wedi mynd i'r adran nesaf i gystadlu 'taflu pêl' ym Mharc Eirias ym mae Colwyn. Pob lwc Obie!

**Mabolgampau'r Ysgol**



Cynhaliwyd mabolgampau ar dir yr ysgol yn ddiweddar. Roedd y plant wrth eu boddau fod yr haul allan! Roedd amrywiaeth o gystadlaethau yn digwydd ynghyd â rasys rhieni hefyd! Diwrnod gwerth chweil!

## Ysgol Pen-y-bryn

**Rhyd Ddu**



Ar 6 Mehefin aeth plant bl.5 i Rhyd Ddu ac aros am noson yn yr hen ysgol, sef y Ganolfan Awyr Agored. Roedd pawb yn llawn cyffro wrth gerdded at y bws gyda'u sachau cysgu a'u cesys yn llawn dillad a da-da's! Ar ol cyrraedd roedd cawsom ein croesawu gan Morfudd a Cemlyn ac ar ôl dadbacio bum yn gwneud ein brechdanau ar gyfer ein bocsys bwyd. Yna mi ddechreuon ni ar ein taith tuag at Feddgelert. Cerddon ni heibio Llyn y Gader ac roeddem yn gallu gweld Yr Wyddfa a'r Aran yn glir ar un ochr a Mynydd Mawr a Moel Eilio ar yr ochr arall. Hefyd, gwelsom y trên bach yn pasio trwy'r pentref. Roeddem wrth ein boddau yn cerdded trwy byllau mwdlyd a nentydd hardd. Yna yn y goedwig cawsom ein picnic wrth ymyl afon fechan; roedd blas da ar y brechdanau!

Ymlaen â ni wedyn at Llyn Llywelyn a mi welsom ni filoedd o benbyliaid ifanc wedi casglu wrth y creigiau. O'r diwedd fe cyrhaeddon ni yn Beddgelert wedi blino'n lân ond yn mwynhau! I mewn i'r siop hufen ia â ni i gael yr hufen iâ mwyaf blasus erioed (geiriau Miss Milliican!!). Roedd pob math o flasau a lliwiau hufen iâ ac roedd yn anodd dewis! Yn ôl a ni i'r ganolfan wedyn a chael gem ddŵr a oedd yn llawer o sbort! Roedd pawb yn wlyb socian o'u corun i'w sawdl a phawb yn rowlio chwerthin. I mewn i sychu wedyn a chael DVD BFG tra oedden ni'n bwyta ein swper blasus. Ac ar ôl hynny gawsom ffilm arall – Wreck It Ralph a oedd yn wych! Ar ôl ambell i gêm roedd yn amser gwely i bawb.

Fore Gwener mi ddeffrodd bawb yn fuan, yn barod am ddiwrnod arall o anturiaethau. Cawsom ddiwrnod o gemau campus a doniol wrth droed yr Wyddfa a hithau'n haul braf. Pan ddaeth hi'n amser gadael doedd neb eisiau mynd a phawb eisiau aros yn hirach! Roedd yn brofiad anhygoel a diolch yn fawr i Mr Jones, Mrs Jones a Miss Millican am fynd a ni ac i Morfudd a Cemlyn am fod mor groesawgar a gwych!!

**Gan Dyddgu Glyn Jones a Lleucu Bryn**

**Wythnos bioamrywiaeth**

Ein henwau ni ydi Tara Stephen, Seren Mai, Elin Owen ac Awel Griffiths. Ychydig yn ôl cawsom lythyr gan Catrin Owen o Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gofyn i ni os oedden ni eisiau mynd i Parc Meurig i ddysgu am natur. Roedd pawb yn awyddus i fynd a felly aeth y dosbarth (Carnedd) i lawr i Barc Meurig ar fore Mawrth, Mehefin 25ain. Aethom am dro gyda Catrin i edrych am wahanol fathau o ddail ar goed. Gwelsom lawer o wahanol fathau ac wedyn aethom i wneud gwahanol weithgareddau. Un o'r gweithgareddau oedd adeiladu 'tŷ' i'r anifail yn y goedwig. Tŷ i'r draenog creodd ein grŵp ni, sef Catherine, James, Awel, Elin, Tara, Alun a Seren. Mwynhaodd bawb y bore ym Mharc Meurig. Diolch yn fawr iawn i Catrin.

**Cricedwyr o fri**

Yn ddiweddar, aeth dau dîm o'r ysgol draw i gystadlu mewn twrnament criced ar gae Bethesda yn erbyn ysgolion eraill y dalgylch. Ennill fu hanes tîm y genethod a'u gwobr oedd mynd trwodd i'r rownd nesaf ym Mhwllheli. Cafwyd diwrnod da arall er mai yno y daeth diwedd i'r daith!! Llongyfarchiadau mawr i Chloe, Annest, Cerys, Katie, Kacey, Lowri, Charlie a Moli am gynrychioli'r Ysgol.
Diolch o galon hefyd i Nicola Williams, Criced Cymru am drefnu popeth mor dda eto eleni.

**Portmeirion**



Dydd Iau 20 Mehefin aeth dosbarth Tryfan ar ymweliad i bentref Portmeirion. Roedd y plant wedi gwneud llawer o waith ymchwil am y pentref yn y dosbarth ac yn edrych ymlaen i weld y pentref Eidalaidd a oedd yn freuddwyd i Syr Clough Williams Ellis. Cafodd bawb ddiwrnod gwych yn crwydro o amgylch y pentref yn edrych ar yr adeiladau lliwgar hardd a oedd wedi cael eu cynllunio yn wahanol iawn i'r adeiladau sydd ym Methesda. Roedd yna olygfeydd gwerth chweil wrth eistedd o flaen y gwesty ar lan y môr. Cafodd pawb hwyl yn mynd ar y trên bach trwy'r goedwig ac wrth gwrs cael hufen iâ cyn troi am adref.

**Menter Addysg y Goedwig**

Aeth plant Dosbarth Carnedd draw i Erddi Botaneg Treborth yn ddiweddar. Yno cafwyd diwrnod arbennig o dda yn dysgu am wahanol bethau allan yn yr awyr agored. Cafwyd sesiwn o drefnu cadwynau bwyd ac yna cyfnod o gyfansoddi cerddoriaeth gydag offerynnau a wnaethpwyd o bren ac ati a oedd wedi'u hailgylchu. Mwynhaodd bawb bicnic ar y lawnt wedyn cyn ail-afael ynddi a chael cyfnod o farddoni'n y goedwig cyn paratoi a choginio pizza blasus ar dân agored.
Diolch i John Steel a phawb arall a gyfranodd tuag at y diwrnod llwyddiannus hwn.

**Ymweliad Ysgol yr Hendre**

Ar Fehefin 19eg daeth criw o blant o Ysgol yr Hendre, Caernarfon draw i gyfarfod ein Grwp Effeithiolrywdd, Plant Pesda. Roedd Pennaeth a Dirprwy Ysgol yr Hendre yn awyddus i ddechrau grŵp o'r fath eu hunain a phwy gwell i'w helpu ond Plant Pesda! Braf oedd cael cyfarfod pawb a rhannu syniadau. Dymunwn yn dda iddynt hwy gyda'u grŵp.

**Hwyl yn y Brifysgol**

Ar fore Gwener, Mehefin 28ain aeth dosbarth Carnedd draw i Lyfrgell Prifysgol Bangor am fore o 'Hwyl a Hud'. Cafwyd stori Hud yn un o'r stafelloedd darllen, ysgrifennu stori gan ddefnyddio celfi a phaentio gyda phaent a bawd. Cafwyd amser braf a hwyliog unwaith eto. Diolch i bawb a wnaeth y bore'n un llwyddiannus a diolch arbennig i Mrs Sarah Jane Owen am y gwahoddiad.

**Mabolgampau Ysgolion Bangor/Ogwen**

Aeth tîm athletwyr yr ysgol draw i gaeau Treborth ar fore Iau, Mehefin 27ain. Dechreuwyd ar y cystadlu ond yna daeth y glaw i ddifetha hwyl pawb. Bu'n rhaid gohirio'r cystadlu a'r gobaith yw medru ail drefnu cyn diwedd y tymor. Diolch i Ysgol y Garnedd am drefnu.

# Ysgol Llanllechid

**Er Cof**
Llawer iawn o ddiolch i deulu Bronnydd am eu rhodd hael i Ysgol Llanllechid er cof am y diweddar Mr Wyn Davies. Estynnwn ein cydymdeimlad a'n diolchgarwch atoch fel teulu.

**Sioe Gwlad y Rwla**
Aeth y Dosbarth Derbyn, yn ogystal â dosbarthiadau Blynyddoedd 1 a 2, i Neuadd John Phillips, Bangor i wylio sioe 'Cerdyn Post o Wlad y Rwla'. Roedd pawb wrth eu boddau'n gwylio'r Llipryn Llwyd, y Dewin Dwl a Rala Rwdins ac yn dychryn pan oedd Strempan gas yn gweiddi nerth esgyrn ei phen!

**Taith i Sŵ Môr Môn**
Bu'r Dosbarth Derbyn yn ymweld â'r Sŵ Fôr ym Mrynsiencyn i ddysgu am wahanol greaduriaid y môr. Cafwyd hwyl garw yn gwylio'r pysgodyn blaidd a'i ddannedd mawr miniog yn dod yn nes ac yn nes tuag at y gwydr ac roedd y plantos yn sgrechian!! Gwelsom amrywiol bysgod, rhai mawr a bach, hir a byr, tew a thenau, lliwgar a rhai â chuddliw a oedd yn cuddio yng nghanol y gwymon! Fe fuom hefyd yn cerdded ger y Fenai ble buom yn casglu pob math o gregyn, cerrig glan y môr, gwymon a chrancod bach. Mae'r dosbarth yn ogleuo fel traeth bellach!! Diwrnod da a thrip i'w gofio

**Buddugwyr Sioe Dyffryn Ogwen**
Cafodd Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen dywydd gwerth chweil eleni a phenderfynodd nifer fawr o ddisgyblion Ysgol Llanllechid gystadlu ar y llu o weithgareddau oedd ar gael. Cafwyd gwobrau lawer yn y cystadlaethau rasus yn y bore a nifer helaeth hefyd, yn y cystadlaethau Celf a Chrefft ac mae'r arlunwaith yn creu arddangosfa hyfryd yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i bawb!

**Croesawu rhieni newydd**
Cafodd nifer fawr o ddarpar-rieni a disgyblion brynhawn i'w gofio pan ddaethant i'r 'Cyfarfod Croeso' yn yr ysgol. Tra roedd y rhieni yn mwynhau paned, sgwrs a chyflwyniad gan Mrs Davies Jones yn y neuadd, roedd y plant yn cael chwarae a gwneud pob math o weithgareddau diddorol yn y dosbarth, gyda'u cyfeillion newydd ac roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr! Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i gyd ym mis Medi!

**Gweithdy Celf gan Theatr y Frân Wen**



Yn dilyn ymweliad dosbarthiadau Blwyddyn 2 â Chanolfan Conwy i wylio'r sioe wych 'Gwyn', cafwyd gweithdy Celf yn yr ysgol fel dilyniant i'r cyfan. Cafodd y plant weithio gyda Mirain Fflur i greu arteffactau oedd yn gysylltiedig â'r sioe, fel pom-poms, llyfrau bach, rhubannau a phob math o bethau i addurno brigau gwynion! Roedd y cyfan yn edrych yn creu arddangosfa werth ei gweld!

**Profiad gwaith**
Roedd yn braf cael croesawu dau o'n cyn ddisgyblion yn ôl i'r ysgol ar wythnos o brofiad gwaith. Roedd Owen Pickering a Megan Macey yn rhoi help llaw yn y gwahanol ddosbarthiadau, a gyda mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen a chwaraeon o bob math. Pob lwc i'r ddau yn y dyfodol a diolch am ddod yma i`n helpu.

**Mabolgampau Cyfnod Sylfaen**
Cafwyd tywydd ardderchog ar gyfer Mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen. Roedd yn braf cael croesawu plant y Cylch Meithrin atom i gymryd rhan yn y cystadlu hefyd. Diolch i'r dorf enfawr o rieni a ddaeth i gefnogi'r plant a diolch arbennig i Mr a Mrs Scott, 'Siop y Post', Rachub am eu rhodd hael o boteli dŵr i'r plant i gyd!

**Blwyddyn 4 Gerddi Botaneg Treborth**
Cafodd plant Bl 4 ddiwrnod gwych yn y Gerddi Botaneg yn Nhreborth yn ddiweddar. Cawsant gyfle i wneud pob math o weithgareddau o astudio'r dail a'r coed i weld offerynnau cerdd oedd wedi eu gwneud o bren o amrywiaeth o goed. Yr uchafbwynt mae'n debyg oedd cael coginio pizza bob un - allan yn yr awyr agored! Bendigedig!

**Diwrnod Sbaenaidd!**
Castanets ...fflamenco...matadors....beth sy'n digwydd yn nosbarth Mrs Rona Williams? Wel, Blwyddyn 3 sy'n cael diwrnod Sbaeneg wrth gwrs! Nid yn unig y plant oedd wedi eu gwisgo'n drawiadol, ond roedd Mrs Williams fel seniorita ddireidus yn dawnsio yn ei ffrog fflamenco liwgar! Oedd, roedd hwyl a sbri, cerddoriaeth a chelf , [diolch i'r artist Ms Anna Pritchard], danteithion o bob math, a'r ystafell wedi ei haddurno â baneri lliwgar Sbaen! OLE!!!



**Mrs Williams a phlant Blwyddyn3**

**Mabolgampau Adran Iau**
O'r diwedd, cafwyd diwrnod heulog braf i gynnal Mabolgampau'r plant hynaf! Daeth criw da i wylio'r rasus a champau, ac roedd y cystadlu mor frwd ag erioed! Diolch i`r rhieni am fod mor barod i gymryd rhan. Enillwyr ras y tadau oedd: 1af: Mark Jones, 2il: Terry Williams, 3ydd: Ben Stammers a ras y mamau oedd 1af: Katie Jones, 2il: Anwen Roberts, 3ydd: Emma Sinfield.

**Twrnament Criced**
Llongyfarchiadau i gricedwyr Ysgol Llanllechid a'u hyfforddwr Mr Stephen Jones a gafodd lwyddiant yng ' Nghystadleuaeth Griced Ogwen' a gynhaliwyd ar gae'r Clwb Criced ym Methesda. Colli yn y rownd derfynol oedd hanes y genethod ond llwyddodd Bechgyn Blwyddyn 5 i ddod yn fuddugol yn y rownd derfynol yn erbyn Bechgyn Bl 6! Roedd yn gystadleuaeth agos iawn a chafodd Bechgyn Bl 5 fynd i gystadlu yng nghystadleuaeth ysgolion Gwynedd ym Mhwllheli, ac ennill un o'u tair gem! Da iawn hogia! Daliwch ati!

**Camau brieision i'r Copa**
Bu criw heini ac uchelgeisiol Bl 6 yn Rhyd Ddu am ddeuddydd yn dringo i gopa'r Wyddfa ac i wneud gwaith maes wrth ymchwilio am drychfilod yn y corsydd a'r nentydd. Cawsant eu harwain gan Cemlyn a Morfudd a mawr yw ein diolch iddynt am dywys disgyblion Llanllechid mor ddiogel a diddan ar hyd ein llwybrau treftadaeth.

**Pili Palas**
Trychfilod a chreaduriaid bychan oedd wrth wraidd diddordeb disgyblion Blwyddyn 6 wrth ymweld â Pili Palas a chael tarantiwla mawr blewog yn crwydro ar gledr eu llaw.

**Pencampwyr**
Mae disgyblion blwyddyn 5 yn astudio y thema 'Pencampwyr' yr hanner tymor hwn. Ar ddechrau'r cyfnod astudio fe ddaeth Carwyn Lloyd Williams i'r dosbarth i rannu ei brofiadau fel pencampwr ym maes criced a rygbi.

**Sesiynau ffitrwydd**
Fel rhan o'r thema 'Pencampwyr', mae disgyblion blwyddyn 5 wedi bod yn gweithio yn galed ym Mhlas Ffrancon gan gael sesiynau cylchdro. Dyma gyfle i ymarfer pob cyhyr yn y corff gan gylchdroi o amgylch y neuadd yn gwneud tasgau amrywiol. Diolch hefyd i Elaine am roi gwybodaeth i'r plant am y gwahanol grwpiau cyhyrau sydd yn y corff.

**Cyngor Ysgol**
Mae'r Cyngor Ysgol wedi cyfarfod ymhellach gyda'r Corff Llywodraethwyr i drafod sut i gyrraedd a gofynion Awdurdod Addysg Gwynedd o ran y Siarter Iaith. Yn ogystal fe ddaeth Mr Dafydd Cadwaladr i siarad gyda'r Cyngor am y manteision o siarad Cymraeg ym myd busnes. Diolch o galon iddo am ei sgwrs ddifyr gan obeithio y bydd yn ysbrydoli disgyblion yr ysgol ym maes mentergarwch.

# Ysgol Llandygái

**Ymddeolias hapus**
Pob dymuniad da i Mrs Jen Jones – athrawes Blwyddyn 3 a 4. Mae hi yn ymddeol wedi cyfnod hir a hapus yma yn yr ysgol.Bydd colled enfawr ar ei hôl; mae gan ddisgyblion ac aelodau staff feddwl mawr ohoni. Dymunwn iechyd a hapusrwydd i chi Jen a chofiwch alw draw i'n gweld.

**Eisteddfod yr Ysgol**
Cawsom ddefod lwyddiannus unwaith eto ac roedd pawb mewn hwyliau da. Llongyfarchiadau i Archie Johnson ar ei lwyddiant yn ennill y gadair a diolch i bawb gyfrannodd at y seremoni, gan gynnwys yr Archdderwydd Machraeth, ac i'r beirniad Mr Richard Llwyd Jones. Roedd genod y ddawns flodau yn werth eu gweld a chawsom berfformaidau arbennig gan y Babanod a'r Adran Iau.

**Trip i Gaerdydd**
Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Gaerdydd yn ddiweddar gydag aelodau o staff i ymweld â mannau arbennig yn y ddinas a'r cyffiniau. Buont yn ymweld â Sain Ffagan, Canolfan y Mileniwm a Techniquest , ac roedd y trip i'r Pwll Mawr yn arbennig iawn. Diolch i Miss Emma Jones am gydlynu y daith lwyddiannus hon. Daeth pawb adref wedi blino ond gydag atgofion melys iawn.
Darllen a Gwrando
Daeth disgyblion Ysgol Tryfan at ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ddiweddar i ddarllen straeon – straeon gwreiddiol ac roedd hi'n braf clywed darllen byrlymus,cwestiynnu effeithiol a gwrandawiad ardderchog gan y disgyblion iau. Profiad gwerthfawr i'r holl ddisgyblion.

**Mabolgampau**
Tîm Tegai oedd yn llwyddiannus eleni ym mabolgampau y ddwy adran. Cawsom dywydd ffafriol a chefnogaeth gref gan y rhieni. Diolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am gyfrannu lolipos i'r plant am eu gwaith caled.

**Ymweliad Rhyd-ddu**
Aeth disgyblion Blwyddyn 3 a 4 am ddiwrnod o dan arweiniad Morfudd a Cemlyn i astudio cynefinoedd amrywiol wrth gerdded ar hyd llwybrau yr ardal hanesyddol hon. Roedd y disgyblion wedi mwynhau ac wedi cael llond bol o awyr iach.

**Ymweliad Plas Menai**
Bu disgyblion Blwyddyn 4 a 5 am ddeuddydd i Blas Menai i brofi gweithgareddau dŵr amrywiol.
Roedd ambell un yn oer a gwlyb yn dod adra ond wedi mwynhau pob eiliad!

**Mabolgampau yr Urdd ac Ysgolion Bangor**
Roedd aelodau o staff yr ysgol yn hynod o falch o lwyddiant ac ymddygiad disgyblion yr ysgol yn ystod y ddau ddiwrnod yma. Roedd pawb yn cystadlu yn frwdfrydig ac yn falch o'u llwyddiant eu gilydd - gwaith tîm ar ei orau!

**Pesda Roc yn cyflwyno Sdwnsh Haf yng nghwmni**




**Dewch i weld Heulwen a Cawod yn Neuadd Ogwen, Bethesda**

**2.00 y prynhawn**


**Dydd Sadwrn 23 Awst**

**£3 ar y drws.**

**Tocynnau ar gael o Siop Kath, Stryd Fawr, Bethesda.**

## Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen

Drwy bori ar y we fyd eang yn ddiweddar fe ddes i ar draws adroddiad ymchwil yn sôn am agweddau llesol pysgota, yn arbennig felly i bobl ifanc. Mae'n gydnabyddedig ers tro fod pysgota yn gallu chwarae rôl werthfawr mewn troi pobl ifanc oddi wrth droseddu ac ymddygiad anghymdeithasol, ond mae'n debyg fod sawl mantais arall yn ogystal. I ddechrau mae pysgota o reidrwydd yn weithgaredd awyr agored, a hynny mewn oes pan fo pryderon gwirioneddol fod gormod o amser yn cael ei dreulio ar yr X Box neu gyfrifiadur. Mae pysgota hefyd yn codi ymwybyddiaeth unigolion o'r amgylchedd ac yn gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o fywyd gwyllt a byd natur yn gyffredinol.



Mae pysgota hefyd yn gallu cynnwys elfen o ymarfer corff boed hynny drwy gerdded ar lan afon neu lyn, drwy gerdded at ddyfroedd diarffordd, neu rwyfo cwch. Roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod manteision iechyd meddwl pysgota gan gyfeirio'n benodol at yr heddwch a'r tawelwch mewnol sydd i'w gael wrth 'forio'. Yn sgil hyn fe honiwyd fod medrau sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio, hunan ddisgyblaeth a dyfalbarhad hefyd yn cael eu datblygu. Mae pysgota hefyd yn ffordd dda o ddod i adnabod pobl newydd ac ehangu'ch cylch ffrindiau.

Ar ddiwedd mis Mehefin daeth criw o ffrindiau at eu gilydd i chwynnu o flaen ardal y llechi er mwyn gwella mynediad at Lyn Ogwen. Roedd yn waith caled ond cafwyd criw da o wirfoddolwyr ac fe drodd yn noson ddifyr o gydweithio gyda llawer o hwyl a thynnu coes. Mae Llyn Ogwen wedi bod yn pysgota yn arbennig o dda eleni yn enwedig ar ddyddiau cynnes ond ble mae'r haul yn cuddio y tu ôl i gwmwl.

Mae'r brithyll trilliw wedi bod yn awyddus iawn i ddangos eu hoffter o 'powerbait; a'u parodrwydd i ddilyn troellwr. Gyda'r mwyafrif o'r 'sgotwrs yn targedu'r pysgod stoc, mae rhai o hogia'r plu (boed yn chwipio neu'n tynnu swigen) wedi cael modd i fyw efo'r pysgod gwyllt sydd, er yn fach, yn niferus. Bydd y gystadleuaeth eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Sul, 4ydd o Awst, rhwng 10:00 y bore a 3:00 y prynhawn gyda chofrestru ym maes parcio Pen Bryn Melyn o 9:30 ymlaen. Atgoffir aelodau y gwaherddir pysgota yn y llyn o awr wedi machlud yr haul nos Sadwrn y 3ydd o Awst tan ddechrau'r gystadleuaeth a ni chaiff unrhyw un sydd ddim yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth bysgota yn y llyn tan ddiwedd y gystadleuaeth.

Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl yma mae sôn fod rhai gwniadau eisoes wedi cael eu dal ac mi ddaliodd Reuben Woodford o Dy'n y Maes eog 8 bwys yn ogystal â brithyll brown pwys a hanner yn yr afon un gyda'r nos sydd yn sydd yn lwmp o 'frowni' i'r Ogwen. Fel arfer mae mis Gorffennaf yn gallu bod yn gyfnod digon rhwystredig ar yr afon ond o leiaf mae gobeithion yn cynyddu wrth i gyfnod prif rediadau'r pysgod nesáu. Serch hynny, hyd yn oed os na welwch 'sgodyn mae yna pob tebygrwydd y gwelwch minc neu ddyfrgi yn chwarae yn y llif, sydd ynddo'i hun yn reswm digon da i roi gorffwys i'r X Box ac i fynd i sgota!

**Pob lwc**

**Gareth Evans**

# O'r Cyngor

## Cyngor Cymuned Pentir

Yn eu cyfarfod ar Fehefin 13, penderfynodd y cyngor y dylid geisio cael trefn ar y ffeiliau ac yn y blaen sydd wedi eu storio yn yr Hen Gapel, Pentir. Mae Archifydd y Sir eisoes wedi dangos diddordeb i weld os oes dogfennau o ddiddordeb hanesyddol yna. Yn ogystal penderfynwyd ceisio cael barn pensaer beth fyddai y gost posib o adnewyddu'r Capel ac efallai ei wedd newid i fod yn Ganolfan i'r pentref.

Ar y noson hefyd cafwyd ymweliad gan Swyddog o Gyngor Gwynedd sydd yn gweithio yn yr Adran sydd yn edrych ar y perygl o lifogydd mewn gwahanol ardaloedd o fewn y Sir; yn ogystal ag effaith lefel y mor yn codi a'r tir yn erydu. Nododd y cynghorydd Anwen Thomas fod problem o lifogydd yn Pentir pan mae hi'n glawio'n drwm. Nododd fod sgwâr y pentref, y dafarn, yr Hen Gapel ac yn y blaen wedi dioddef yn y gorffennol. Addawodd y Swyddog anfon copi o'r Archwiliad a wnaeth yr Adran i'r llifogydd hynny.

**CYNGOR CYMUNED PENTIR**

**Y FYNWENT, PENTIR**

Dalier sylw y bydd Archwiliad llawn o'r beddau a'r cerrig beddi yn Mynwent Pentir o fewn yr wythnosau nesaf.

Bwriad yr Archwiliad ywasesu diogelwch y beddau ac i gymryd camrau i'w diogelu os bydd raid.

Gellir cysylltu â'r clerc os am fwy o fanylion:
Jiwn M jones 01286/669180,
E bost: jiwnjones@gmail.com

**CYNGOR CYMUNED, PENTIR**

**CEISIADAU AM NAWDD ARIANNOL**

Penderfynodd Cyngor Cymuned Pentir y dylid pennu dyddiad arbennig i dderbyn ceisiadau gan Gymdeithasau ac yn y blaen am Nawdd oddi wrth y Cyngor. Rhaid llenwi ffurflen bwrpasol a'i hanfon yn ôl at y clerc ERBYN 20 MEDI

Penderfynnir ar bob cais yn ystod mis Hydref.
Manylion i gysylltu:
Jiwn M Jones (Clerc)
2 Rhes Constantine,
Caernarfon
LL55 2HL
01286/669180
E bost: jiwnjones@gmail.com

Daeth cynrychiolydd o Gwmni Lovells, sy'n adnewyddu tai ar ran Cartrefi Cymunedol Gwynedd i esbonio fod y Cwmni yn fodlon rhoi ffens o gwmpas y Cae Chwarae yng Nghaerhun ac i hadu pen pellaf y cae. Derbyniodd y cynghorwyr y cynnig a diolchwyd i'r Cwmni.

## Cyngor Bethesda

Croesawyd Mrs Amanda Davies o Gyngor Gwynedd i'r cyfarfod i drafod Prosiect Canol Tref Cyngor Gwynedd.

**Prosiect Canol Tref Cyngor Gwynedd**
Mae yna rywfaint o arian ar gael o brosiect Canol Tref y Cyngor i wario yng nghanol Bethesda ar fan welliannau amgylcheddol. Cafwyd trafodaeth gyda Amanda Davies i weld sut a beth fyddai'r ffordd orau i weithredu a gweinyddu'r arian. Cadarnhawyd fod awdit amgylcheddol wedi ei baratoi ar ffurf "Gwaith Sgopio Gwella Delwedd Canol Tref Bethesda" ac fe edrychwyd drwyddo yn sydyn.

Penderfynwyd fod Is-bwyllgor i gynnwys y Cynghorwyr Neville Hughes, Walter Williams, Ann Williams, Paul Rowlinson a'r Clerc i gyfarfod â Mrs Davies yn Gorffwysfan am 2:30 o'r gloch ar y 4ydd o Orffennaf i'w drafod ymhellach.

**Gwaith Ymgymerwr y Cyngor/ Goryrru yng Ngwernydd a Baw Cŵn-**
Cyflwynwyd e-bost gan y Cynghorydd Ann Williams eisiau cyfleu ei diolch i ymgymerwr y Cyngor am wneud gwaith mor dda i'r Cyngor yn ddiweddar. Mae hefyd wedi derbyn cwyn bod goryrru yn y Gwernydd a bod baw cŵn ar lwybr y Wern. Penderfynwyd diolch i Mr C Jackson am ei waith a chysylltu â swyddogion Adain Draffig Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r goryrru a gofyn i Swyddogion Trefi Taclus Cyngor Gwynedd am fwy i finiau baw cŵn.

**Arwisgo Wyneb ffyrdd**
Llythyr a thaflenni gan Gyngor Gwynedd yn egluro'r broses. Penderfynwyd Rhannu'r taflenni i'r Aelodau. Dylid hefyd cwyno am safon y gwaith ger Tesco oherwydd bod dŵr yn hel yno

**Mantell Gwynedd**
**Cymraeg Efo'n Gilydd** - Cynnig grant hyd at £100 i hyrwyddo dysgwyr i gymryd rhan mewn cyfarfod o fudiadau lleol. Dyddiad cau ar gyfer cyfnod yr Hydref fydd 28ain Mehefin 2013. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a'i roi yn Llais Ogwen

**Llywodraeth Cymru/ Un Llais Cymru**
Atodir er gwybodaeth a sylw gopi o lythyr a ddanfonwyd at Brif Weithredwyr holl Awdurdodau Unedol Cymru yn egluro'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dosbarthu'r cyfanswm o £375,000 trwy'r rhaglen grant gwefannau ledled Cymru. Bu Un Llais Cymru yn cynrychioli'r sector yn y trafodaethau hyn ac maent yn falch y cafodd y mater hwn ei gytuno o'r diwedd ac y gellir dechrau cyflwyno'r rhaglen yn syth ar draws Cymru. Er mwyn cefnogi'r rhaglen grant hon, bu Un Llais Cymru'n gweithio gyda Vision ICT ac maent wedi cytuno pecyn meddalwedd gwerth £500 gyda nhw ar gyfer aelodau Un Llais Cymru a fydd yn galluogi cynghorau i gyflawni gofynion y cynigion a gynhwysir yn y Bil Democratiaeth Leol - ac atodwyd copi o'r cynnig er gwybodaeth a sylw. Penderfynwyd gohirio penderfyniad hyd at Fis Gorffennaf.

**Dŵr Cymru**
A oes gorsaf bwmpio preifat yn eich gardd neu yn eich cymuned chi? Mae Dŵr Cymru nawr gyda chyfrifoldeb drostynt ac maent yn ceisio darganfod eu lleoliad.

## Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod Mehefin yng Nghanolfan Tregarth, gyda'r Cynghorydd Dafydd Owen yn y gadair.

**Lefel y Môr**
Estynnwyd croeso i Mr H. Williams, un o swyddogion y Cyngor Sir, i drafod materion yn ymwneud â thraethliniau. Eglurodd y posibilrwydd y bydd lefel y môr yn codi, a chael effaith niweidiol ar y tir gerllaw'r traethliniau.

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus iawn i godi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa ac i sicrhau na wneir niwed i'r tir yn ystod yr ugain mlynedd nesaf. Mae'n bosibl y bydd mwy o ddŵr a llifogydd yn digwydd yn y dyfodol a dylid gofalu na fyddir yn adeiladu ar safleoedd anaddas.

**Materion Eraill**
Yn dilyn cwynion gan y Cyngor Cymuned mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i nifer o faterion priffyrdd.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi trefnu i beintio rhagor o lochesi bws.

Cafwyd adroddiad gan y cynghorydd Mair Leverett ar Ysgol Llandygái, gan Y cynghorydd Rhys Llwyd ar Ganolfan Tregarth ac ar Dîm Prosiect Bangor gan y Cynghorydd Dafydd Owen.

Bydd y Cyngor Dir yn ailwynebu priffyrdd yn yr ardal yn ystod y misoedd nesaf.

Penderfynwyd cefnogi Pwyllgor Diogelu Coetmor yn eu gwrthwynebiad i godi stad o dai ar gaeau gwyrdd.

# Llythyrau

**Annwyl Olygydd,**

**Cyngor gan Age Cymru**

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Rydym yn rhoi cyngor diduedd am ddim i rai dros 50 oed, eu teuluoedd a'u ffrindiau ledled Cymru ar ystod o bynciau.

Mae'n bosibl bod rhai o'ch darllenwyr am gyngor ynglŷn â ble i gael help gyda'r tasgau bach hynny o amgylch y tŷ.

Efallai bod rhywun am ganfod faint y dylai dalu am ofal un annwyl iddynt?

Neu efallai eu bod am wybod a ydynt yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn ac am gymorth i'w hawlio?

Os felly, gall Age Cymru helpu gyda'r materion hyn i gyd, a mwy - y cyfan mae angen i chi ei wneud yw ein ffonio ni ar 08000 223 444 a siarad ag un o'n hymgynghorwyr.

Mae hwn yn wasanaeth dwyieithog.

Gallwn gynnig cymorth ymarferol a chyngor, neu gallwch gael cyngor wyneb yn wyneb a chymorth gan un o'n rhwydwaith o bartneriaid lleol ledled Cymru.

Gallwch hefyd gael copi am ddim o'n cyhoeddiad newydd 'Mwy o Arian yn eich Poced', sef canllaw i hawlio budd-daliadau ar gyfer pobl dros oed pensiwn.

Yn gywir,

**Claire Morgan**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**
**AGE Cymru**

## Bugeiliaid y Stryd

Ydych chi, neu rywun 'rydych chi'n ei 'nabod, yn arfer mynd am nos Sadwrn allan ym Mangor? Os felly, dyma rif ffon defnyddiol i'w gadw wrth law: 07580 607032

Mae Bugeiliaid Stryd Bangor wedi bod yn gwasanaethu ers dwy flynedd a hanner. Bydd tîm o wirfoddolwyr o'r eglwysi a'r capeli yn mynd allan gyda'r nos gan ofalu am bobl a helpu i wneud y strydoedd yn fwy diogel.


Fel arfer, mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig ar nos Wener, sy'n noson eithaf prysur yn ystod tymor y Brifysgol. Ar ôl trafodaethau gyda'r heddlu ac eraill, rydym wedi penderfynu y byddai'n fwy buddiol mynd allan ar nos Sadwrn dros fisoedd yr haf.

Mae'r Bugeiliaid wedi derbyn hyfforddiant mewn cymorth cyntaf ac yn ystod y flwyddyn wedi defnyddio eu sgiliau ar sawl achlysur yn ogystal â galw ambiwlans i nifer o ddigwyddiadau mwy difrifol.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Paul Rowlinson, Cyd-drefnydd, ar 605365 neu anfonwch e-bost at bangor@streetpastors.org.uk.

Os oes rhywun allan rhwng 10.00 yr hwyr ar nos Sadwrn a 4.00 y bore ac eisiau cymorth gan Fugeiliaid y Stryd gall ffonio'r rhif 07580 607032.

# Rhagor o Luniau o Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen



Morris Cowley (1924) yn yr Arddangosfa hen beiriannau.



Cneifio - cystadlu brwd



Joshua Hughes, Rachub, cyntaf ac ail am wneud cacennau.



Awel Griffiths. Ennill Cwpan Wendy Eccles - cyntaf am wneud "collage".



Meilyr Griffiths, Ffordd Bangor, - ail wobr am wneud "Gardd Fechan".




Alun Wyn Jones, Tregarth - Ennillydd gwobr yn yr Adran Ffotograffiaeth.



Pat Hamilton, Tregarth - Enillydd sawl gwobr yn y babell gynnyrch.



Sheila Williams - Enillydd sawl gwobr.

Llais Ogwen 28

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?


## Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
10.00am - 2.00pm

**10 Awst**
(yn y Clwb Rygbi, Bethesda)

**14 Medi**
(yn y Clwb Rygbi, Bethesda)

Bwydydd a Chrefftau
**www.marchnadogwen.co.uk**




## NEUADD OGWEN, BETHESDA

## BOREAU COFFI



27 Gorffennaf: Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
17 Awst: Cronfa Tracy Smith

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

## Canolfan Cefnfaes BETHESDA
## GYRFA CHWIST

Gorffennaf 23 a 30
Medi 10 a 24
am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

## Theatr Bara Caws

**RIFIW NEWYDD O AMGYLCH CYMRU YN NODI DECHRAU'R RHYFEL BYD CYNTAF**

Yn ystod Gwanwyn 2014 mae Bara Caws yn bwriadu teithio rifiw newydd o amgylch Cymru yn nodi dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Os hoffech i ni ddod i'ch cymuned chi a bod gennych hanesyn penodol i'w adrodd sy'n berthnasol i'ch ardal – gall fod yn stori, yn gerdd, yn gan, yn rhestr enwau, yn hanes am gofgolofn ayb – cysylltwch a ni rhag blaen er mwyn i ni edrych ar y posibiliadau o deilwra'r sioe yn arbennig ar eich cyfer.

e.bost linda@theatrbaracaws.com

**Grŵp Cymunedol Talybont**
**DIWRNOD HWYL**
**Cae Chwarae Talybont**
**Sadwrn, 3 Awst**
**11 - 4 o'r gloch**
**Dewch yn llu**

## THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno
3 chynhyrchiad am Kate Roberts
yn
**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL DINBYCH A'R CYLCH**
THEATR TWM O'R NANT, DINBYCH

7.30 Nos Fawrth 6 Awst – Nos Wener 9 Awst

### 'CYFAILL'

drama newydd sbon gan Francesca Rhydderch
Archwilia'r ddrama deimladwy hon un o'r cyfnodau mwyaf cythryblus ym mywyd Kate Roberts, pan fu farw ei gŵr, Morris, yn annhymig o alcoholiaeth.

### 'TE YN Y GRUG'

Addasiad newydd gan Manon Wyn Williams o un o hoff lyfrau 'Brenhines ein Llên'.
Y cast: Carys Gwilym, Morfudd Hughes, Fflur Medi Owen, Rhodri Siôn, Manon Wilkinson
Cyfarwyddo: Betsan Llwyd Cynllunydd: Emyr Morris-Jones

Gellir cael tocynnau cynyrchiadau 'Cyfaill' a 'Te yn y Grug' ar gyfer yr Eisteddfod drwy: www.wegottickets.com/theatrbaracaws neu yn ogystal yn ystod wythnos yr Eisteddfod drwy ffonio: Mari: 07880031302

YN Y BABELL LÊN –
DYDD SADWRN OLAF YR EISTEDDFOD –
10 Awst am 12.45 yp
John Ogwen a Maureen Rhys yn

### ANNWYL KATE, ANNWYL SAUNDERS

Cipolwg ar gyfnod maith o lythyru rhwng dau o brif lenorion Cymru, yng nghwmni dau o fawrion y theatr yng Nghymru – fe gawn y dwys, y digri a'r deifiol.

BYDD 'CYFAILL' A 'TE YN Y GRUG' AR DAITH O AMGYLCH CYMRU - 9fed o Fedi – 5ed Hydref, 2013 – gweler gwefan Bara Caws: www/theatrbaracaws.com
'Annwyl Kate, Annwyl Saunders' ar daith o 20 Mehefin – 30 Hydref, 2013.

## Darlith Goffa Dafydd Orwig



Dr Gareth Ff. Roberts oedd y darlithydd blynyddol yn Llyfrgell Bethesda eleni. Ei destun oedd "Mae Pawb yn Cyfrif", ac fe gafwyd noson hynod o ddiddorol yn ei gwmni. Yn y llun gwelir ef (ail o'r dde) gyda llywydd y noson, Y Prifardd Ieuan Wyn (dde) a Mrs. Beryl Orwig a Huw Orwig.

## Bowlio

Gyda hanner tymor wedi mynd heibio bellach y gobaith yw y bydd tywydd gwell ar gael i gwblhau gweddill ein gemau. ar hyn o bryd mae'r timau llwol wedi chwarae llwer mwy o gemau oddi cartref oherwydd y tywydd a chyflwr y lawnt. Golyga hyn y bydd cyfle i'r timau lleol fanteisio ar chwarae ar eu lawnt eu hunain yn Methesda, lle dylent drechu eu gwrthwynebwyr.

Mae'r pum tîm yn hanner gwaelod y cynghreiriau y maent yn chwarae ynddynt ond deil gobaeith y gall tîm dydd Sadwrn, dan arweiniad Richard Ringo Jones, orffen yn agos iawn i frig y tabl. Mae Derek Man U ar ben ei gêm ar hyn o bryd.

Brwydro ymlaen mae timay Gareth a Dilwyn ar bnawn dydd Mawrth a'r nod yw ceisio osgoi bod ar waelod y cynghreiriau ar ddiwedd y tymor. Mae Gilbert Bowen yn cael tymor llwyddiannus.

Bydd tîm nos Lun, dan arweiniad Gareth a Rita Lewis, yn chwarae yn rownd gynderfynol cwpan Tony Hughes ar nos Wener, 5 Gorffennad yn erbyn Llangefni yng Nghaernarfon. Pob hwyl iddynt.

Cnlyniadau cymysg hyd yn hyn a gafwyd gan diin nos Fercher, yn ôl y capten Alun Williams, a buddugoliaeth o 9 i 3 yn erbyn Penygroes yw'r canlyniad gorau hyd yma.

Llongyfarchiadau i Siôn Guto Roberts, Callum Sorfleet a Sam Whirehead ar gael eu dewis i garfan Tîm Cymru dan 18 oed. Da iawn hogiau! Enillodd Sam dlws am y perfformiad gorau wrth chwarae i'r tîm yn Coventry yn ystod mis Mehefin.

Cofiwch am ein cystadleuaeth fawr i barau, sydd i'w chynnal ar 25 Awst rhwng 10.00 y bore a 7.30 yr hwyr.
Bydd llawer o chwaraewyr baenllaw Cymru yno. Galwch draw am baned a sgwrs.

**I gynnwys eich gweithgareddau lleol yn Nyddiadur y Dyffryn cysylltwch â**
**Neville Hughes**
**☎ 600853**